# Llais Ogwan

*Papur Bro Dyffryn Ogwen*

**Rhifyn 492 · Hydref 2018 · 50c**


# Cydnabod oes o wasanaeth i'r Ysgol Sul



Mewn cyfarfod arbennig o Gyngor Ysgolion Sul ac Addysg Gristnogol Cymru yn Llandudno ddechrau'r mis, cyflwynwyd Medal Gee i Mrs Helen Williams, Llwyn Bleddyn, a hynny yn gydnabyddiaeth o oes o wasanaeth i'r Ysgol Sul yng Nghapel Carmel, Rachub.

Derbynniodd Helen y fedal ochr yn ochr ag unigolion eraill sydd wedi neilltuo degawdau o wasanaeth i Ysgolion Sul Cymru, gyda'r rhan fwyaf ohonynt wedi bod yn ymwneud â'r gwaith ers dros hanner canrif. Yn achos Helen, mae wedi bod yn athrawes yn Ysgol Sul Capel Carmel ers 61 o flynyddoedd ac wedi cyflawni ei gwasanaeth yn ddi-dor ers dysgu ei dosbarth cyntaf yno yn ferch 16 mlwydd oed. Hyd yn oed pan y bu'n hyfforddi i fod yn athrawes o'r iawn ryw, roedd ei hymlyniad cryf wrth yr Ysgol Sul yng Ngharmel yn golygu ei bod yn parhau i arwain dosbarth yno ar y Sul.

Yn wir, yn ôl Helen, bu'r profiad o arwain dosbarth yn yr Ysgol Sul a hyfforddi'r plant i ganu ac i adrodd yn un buddiol dros ben ac yn un a'i gyrrodd yn y man at yrfa ddysgu, gan dreulio chyfran o'i gyrfa yn Ysgol Llanllechid.

Yn rhinwedd ei gwasanaeth yn yr Ysgol Sul, mae Helen wedi bod yng ngofal cannoedd o blant a phobl ifanc y fro, gan roi iddynt doreth o brofiadau amrywiol dros y blynyddoedd – yn deithiau i safleoedd hanesyddol o amgylch Cymru, yn gystadlaethau chwaraeon ac yn gyweithiau creadigol (gan ennill Cwpan Denman yr Ysgolion Sul nifer o weithiau), yn ogystal â threfnu gwasanethau Nadolig, Y Pasg a'r Diolchgarwch yn y capel.

Yn ogystal â hyn, mae'n parhau i roi o'i hamser fel athrawes ac wrth gynnal y Clwb Dwylo Prysur, sef grŵp celf ar gyfer plant a phobl ifanc yr Ysgol Sul, gyda thalentau niferus wedi eu canfod a'u meithrin ganddi dros y blynyddoedd.

Yn destament i'w hymroddiad i'r Ysgol Sul ac i'w gwaith diflino â phlant a phobl ifanc yr ardal yn rhinwedd ei swydd fel athrawes yn Ysgol Llanllechid, daeth nifer helaeth o gyfarchion i law wrth baratoi y rhifyn hwn o'r Llais – oll yn ei llongyfarch ar dderbyn Medal Gee haeddiannol iawn ac yn diolch iddi am oes o wasanaeth i sefydliadau'r fro.

Pan holwyd Helen am ei hymateb wedi iddi dderbyn y Fedal, meddai yn nodweddiadol ostyngedig:

'Tydi o heb fod yn waith i mi – dwi wedi mwynhau pob eiliad o fod yng nghwmni'r plant.'

Ar ran y Llais, hoffem estyn ein llongyfarchion ninnau at Helen ar dderbyn Medal Gee a diolchwn yn ddiffuant iddi am oes o wasanaeth – gwasanaeth a gychwynnodd 61 o flynyddoedd yn ôl ac sy'n parhau hyd heddiw.

## Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen

(Dwy sesiwn o fwynhad pur!)

Nos Wener, 16 Tachwedd 2018 am 6.00yh
yn Neuadd Ogwen

**Seremoni'r Orsedd . Cystadleuthau'r Corau**
**Unawdau Lleisiol ac Offerynnol**
**a Chystadleuthau i Ysgolion Uwchradd**



Sadwrn, 17 Tachwedd 2018 am 10.00yb
yn Ysgol Dyffryn Ogwen

**Gwledd o Gystadleuthau Cynradd:**
**Canu, Llefaru, Dawns, Celf a Chrefft**

Llais Ogwan

## Panel Golygyddol

**Derfel Roberts**
☎ 600965
derfel.roberts@btinternet.com

**Ieuan Wyn**
☎ 600297
ieuanwyn01@gmail.com

**Lowri Roberts**
☎ 600490
l.roberts11@btinternet.com

**Fiona Cadwaladr Owen**
☎ 601592
fionaowen28@gmail.com

**Neville Hughes**
☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

**Dewi A Morgan**
☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

**Trystan Pritchard**
☎ 07402 373444
trystanrp1@gmail.com

**Walter a Menai Williams**
☎ 601167
waltermenai@yahoo.co.uk

**Orina Pritchard**
☎ 01248 602119
orinapritchard@gmail.com

**Rhodri Llŷr Evans**
☎ 07713 865452
Rhodri.llyr.evans@gmail.com

## Swyddogion

**Cadeirydd:**
Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3DT ☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

**Trefnydd hysbysebion:**
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA
☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

**Ysgrifennydd:**
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH
☎ 601415
garethllwyd197@btinternet.com

**Trysorydd:**
Godfrey Northam, 4 Llwyn
Bedw, Rachub, Llanllechid
LL57 3EZ ☎ 600872
godfreydnortham@hotmail.co.uk

**Y Llais drwy'r post:**
Owen G Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3NN ☎ 600184
post@llaisogwan.com

## Golygydd y mis

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan
Rhodri Evans.

Y golygydd ym mis Tachwedd fydd
Dewi A. Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor, Bethesda,
Gwynedd, LL57 3DT.
01248 602440
dewimorgan@live.co.uk

Pob deunydd i law erbyn
**dydd Mercher, 31 Hydref**
os gwelwch yn dda.
Plygu **nos Iau, 15 Tachwedd**,
yn Festri Capel Jerusalem
am 6.45.

**DALIER SYLW**: nid oes
gwarant y bydd unrhyw
ddeunydd fydd yn
cyrraedd ar ôl y dyddiad
cau yn cael ei gynnwys.

Cyhoeddir gan
Bwyllgor Llais Ogwan @Llais_Ogwan

Cysodwyd gan Elgan Griffiths
elgangriffiths@btinternet.com
☎ 01970 627916
Argraffwyd gan *y Lolfa*


Nid yw pwyllgor Llais Ogwan na'r panel golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno â phob barn a fynegir gan ein cyfranwyr.

**Mae Llais Ogwan ar werth yn y siopau isod:**

**Dyffryn Ogwen**
Londis, Bethesda
Siop Ogwen, Bethesda
Cig Ogwen, Bethesda
Tesco Express, Bethesda
Select Conv, Bethesda
Siop y Post, Rachub

**Bangor**
Siop Forest
Siop Menai
Siop Ysbyty Gwynedd

**Caernarfon**
Palas Print

**Porthaethwy**
Awen Menai

**Rhiwlas**
Garej Beran

# Dyddiadur y Dyffryn

**Hydref**

19 Darlith Goffa Archesgob John Williams. Eglwys Sant Tegai am 7.00.
20 Bore Coffi Eglwys St. Cedol. Cefnfaes. 10.00 – 12.00.
22 Te Bach. Festri Carmel Llanllechid. 2.30 – 4.00.
27 Bore Coffi Steddfod - Festri capel Jerusalem. 10.00 – 12.00.

**Tachwedd**

01 Sefydliad y Merched Carneddi. Cyf. Blynyddol a Swper Cynhaeaf. Cefnfaes am 7.00.
03 Bore Coffi Neuadd Talgai. Cefnfaes . 10.00 -12.00.
05 Merched y Wawr Tregarth. "Fy hoff rysait." Festri Shiloh am 7.30.
07 Cyf Blyn Llais Ogwan - Llyfrgell Bethesda am 7.30.
08 Cymdeithas Jerusalem. Dr. Gwyn Lewis. Festri am 7.00.
09 Steve Eaves a Rhai Pobl, Neuadd Bentref Rhiwlas, 7.30
10 Marchnad Ogwen. Neuadd Ogwen. 9.30 – 1.00.
10 Bore Coffi Clwb Camera. Cefnfaes. 10.00 – 12.00.
12 Cymd. Hanes D. Ogwen. Einion Thomas. Festri Jerusalem am 7.00.
14 Plaid Lafur Dyffryn Ogwen. Cefnfaes am 7.30.
15 Plygu'r llais - Festri Capel Jerusalem am 6.45.
16 Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen. Neuadd Ogwen am 6.00.
17 Eisteddfod Dyffryn Ogwen. Ysgol Dyffryn Ogwen am 10.00.
17 Bore Coffi Gofalwyr Gwynedd a Môn. Cefnfaes. 10.00 – 12.00.
17 Ffair Nadolig Eglwys St. Ann a St. Mair. Neuadd Goffa M. Llandygai. 11.00 – 2.00.
21 Marchnad Nadolig Ogwen. Neuadd Ogwen. 5.00 – 8.00.
24 Bore Coffi Nadolig NSPCC. Caffi Coed y Brenin. 10.00 – 12.00.
24 Bore Coffi Cancr y Prostrat - Festri Capel Jerusalem. 10.00 – 12.00.

Ariennir yn Rhannol gan Llywodraeth Cymru
CYMRAEG

# Gwellhad buan

Yn dilyn damwain frawychus ar gaeau rygbi Dôl Ddafydd y mis diwethaf, estynnwn ein dymuniadau gorau i Mathew Parry yn dilyn triniaethau brys yn ysbytai Gwynedd a Stoke. Da yw deall fod cronfa a sefydlwyd ar gyfer cynnal costau meddygol Mathew wedi casglu dros £7,000 erbyn hyn a'i fod wedi derbyn dymuniadau da gan bobl ar hyd a lled Cymru a thu hwnt. Gwellhad buan iti, Mathew. - ***Gol***

# Tân yng Nghefnfaes

Yn dilyn tân yng Nghanolfan Cefnfaes yn ddiweddar, ni fydd modd cynnal digwyddiadau yno am sbel. Nodwch, fodd bynnag, nad yw unrhyw ddigwyddiadau yng Nghefnfaes a nodir yn y rhifyn hwn o reidrwydd wedi eu canslo yn sgîl y tân ac y dylid cysylltu â threfnwyr y digwyddiadau hynny am wybodaeth bellach ynghylch lleoliadau ac amseroedd diwygiedig. - ***Gol***

DILYNWCH NI AR TRYDAR

# Pythefnos drysau agored 15 - 28 Hydref 2018

Bydd pobl yn ein hardal yn agor drysau eu cartrefi i bawb gael profi ynni gwyrdd mewn cartrefi clyd. Clywch eu hanes am pam ddaru nhw gael ynni gwyrdd yn eu cartrefi, a sut oedden nhw'n mynd o'i chwmpas hi. Efallai eich bod wedi meddwl cael gwres neu drydan adnewyddol yn eich cartref eich hunain, neu efallai eich bod chi â diddordeb sut mae'n gweithio. Bydd hwn yn gyfle i siarad amdano heb unrhyw *sales pitch*, a hynny dan faner prosiect newydd Cyd Ynni sy'n gweithio gyda grwpiau ynni cymunedol yr ardal.

Peidiwch â drysu'r prosiect hwn efo Ynni Lleol (a ddechreuodd ei fywyd fel Cyd Ynni...) sy'n darparu ynni cymunedol gwyrdd i bobl yn nhalgylch Bethesda. Ia, bydd Cyd Ynni hefyd yn annog pobl i feddwl am eu defnydd ynni, ac yn ceisio canfod ffyrdd i ni gael prynu ein pwer gan generadur lleol. Ond bwriad ein gwaith yw helpu grwpiau ynni cymunedol i wneud eu gwaith, a rhannu gwybodaeth.

Digwyddiad rhannu fydd y pythefnos Drysau Agored hefyd. Pedwar o gartrefi sy'n cymryd rhan y tro hwn. Cewch wybodaeth am bob un wrth ymweld â http://cydynni.greenopenhomes.net. Gallwch drefnu diwrnod ac amser i ymweld gyda'r perchnogion yn unigol.

Dewch yn llu, a lledwch y gair nad oes raid i ynni gwyrdd fod yn ofnadwy o ddrud nac yn strach!

# Rhoddion i'r Llais

| | |
|---|---|
| £40.00 | Llew ac Enfys Jones, 2 Cae Gwigin, Talybont, ar achlysur dathlu eu Priodas Blatinwm. |
| £11.00 | Lynn Ashton, Bryn Eglwys. |
| £30.00 | Gwyn Roberts, Maes yr Hedydd, Tregarth. |
| £20.00 | Meirion Gwyn, Maes yr Hedydd Tregarth. |
| £5.00 | Llewela O'Brien, Bangor, er cof am ei hannwyl dad, Richard Cyril Thomas, 22 Maes Ogwen, Tregarth. |

**Diolch yn fawr**

I hysbysebu yn **Llais Ogwan, Neville Hughes** 600853 (nev_hughes@btinternet.com)

## Archebu trwy'r post

Gwledydd Prydain – £20
Ewrop – £30
Gweddill y Byd – £40

Owen G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda, Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com ☎ 01248 600184

## Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â Gwyn yn swyddfa'r deillion, Bangor 01248 353604

Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:

**Gareth Llwyd** ☎ 601415
**Neville Hughes** ☎ 600853

# Sefydliad y Merched, Carneddi

Ar Hydref 4ydd croesawodd ein llywydd bawb i'r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan Bess, Gwenda a Margaret, gan obeithio bod Margaret yn gwella ar ôl ei chodwm yn ddiweddar. Yn ogystal, mae ein cofion yn mynd at Bess, gan obeithio bod hithau hefyd yn gwella ar ôl ei damwain.

Cydymdeimlwyd ag Annwen a theulu'r diweddar Tecwyn Hughes o'r Gerlan. Mae ein cofion dwysaf yn mynd atoch oll fel teulu.

Mae Doris Shaw wedi dod yn hen nain! Ei wyres o America, sef Lea, wedi cael mab bach. Merch Glyn, mab Doris, yw Lea, ac felly mae yntau wedi dod yn daid am y tro cyntaf. Llongyfarchiadau i chi gyd!

Darllenwyd y cofnodion gan Gwyneth a'r llythyr misol gan Rita, a thrafodwyd llawer o'r cynnwys ynglŷn â gweithgareddau Sefydliadau y Merched .

Ein gwraig wadd am y noson oedd Nia Williams o Landegfan. Bu'n diwtor ymarfer corff yn y Coleg Normal, Bangor ond ei diddordeb nawr wedi troi at hen greiriau. Yr oedd amryw o'r aelodau wedi dod â rhai o'u hen greiriau hwy i gyfrannu at y noson, a chawsom amcangyfrif o werth ein trysorau ganddi.

Cawsom sgwrs ddiddorol ganddi am ei heitemau hi, sef hen geiniogau oedd wedi cael eu cynhyrchu ym Mynydd Paris, Sir Fôn a hefyd hen fodrwyau a chardiau post (rhai o Fethesda), ynghyd â llawer o bethau eraill! Yr oedd yn noson dda iawn a llawer o'r merched wedi cael canlyniadau da am ei creiriau hwy!

Diolchwyd i Nia gan Rita, a ddiolchodd hefyd i'r merched am y baned. Enillydd y wobr lwcus oedd Carys Thomas, yn rhodd gan Ceri Dart.

## Clwb Cyfeillion Llais Ogwan

**Gwobrau Hydref**

| | | |
|---|---|---|
| £30.00 | (57) | Gwyn Roberts, Maes yr Hedydd, Tregarth. |
| £20.00 | (70) | Meirion Gwyn, Maes yr Hedydd, Tregarth. |
| £10.00 | (61) | Blodeuwedd Wyn, Talgarreg, Carneddi. |
| £5.00 | (71) | Elfed Bullock, Maes y Garnedd, Bethesda. |

**(Os am ymuno, cysylltwch â Neville Hughes – 600853)**

## Ysgol Pen-y-bryn

Croeso i 41 o ddisgyblion newydd i Flwyddyn 3 – mae pawb wedi setlo'n wych.

Bob Dydd Mercher mae Elin o Dawns i Bawb yn dod i roi gwersi dawnsio i ddosbarth Tryfan a Carnedd. Mae'r plant yn brysur yn gweithio ar ddawns sydd yn cyfleu y thema Ffermio.

Daeth Manon Elis i siarad efo disgyblion Blwyddyn 3 am lyfrau. Roedd pawb wedi mwynhau mynd i fyd dychymyg ac wedi sylwi cymaint o bleser sydd i'w gael wrth ddarllen.

Aeth Blwyddyn 3 a 4 ar ymweliad i Gwm Idwal er mwyn dysgu am y mynyddoedd, gwahanol gynefinoedd a'r bywyd gwyllt. Diolch yn fawr i Guto o'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol am arwain y daith a dysgu gymaint o bethau diddorol i ni.



Cafodd blwyddyn 3 a 4 gyflwyniad diddorol gan Gwyn Thomas o fferm Blaen Y Nant yn adrodd hanesion a straeon difyr ei blentyndod hyd at heddiw ar y fferm. Roedd pawb wedi mwynhau ac wedi dysgu llawer o bethau newydd sbon. Rydym yn edrych ymlaen i ymweld a'r fferm yn fuan.

### Lerpwl

Bu dosbarth Elidir a Glyder yn Amgueddfa Forwrol Titanic yn Lerpwl ddiwedd Medi. Cafwyd gweithdy drama hynod o fywiog gan gymeriad dychmygol o "ddosbarth cyntaf" y Titanic. Daeth hyn a'r profiad yn fyw i'r plant. Cawsom gyfle i weld llawer o greiriau o'r llong, yn ogystal â darllen am fywydau rhai o'r teithwyr a wnaeth oroesi. Rydym wrthi'n ddiwyd ar hyn o bryd yn ysgrifennu erthygl bapur newydd am y drychineb hon.

### Beicio

Llongyfarchiadau i bawb ym mlwyddyn 6 a lwyddodd i gyrraedd lefel 2 mewn sgiliau beicio a diogelwch y ffordd. Bydd lonydd Bethesda yn llawer mwy diogel gyda'r disgyblion hyn wrth y llyw.

### Bethan y Crochenwraig

Cafodd dosbarth Glyder brynhawn i'w gofio pan ddaeth Bethan o Bwlldefiad, Pwllheli atom i wneud gweithdy crochenwaith. Mae Bethan wedi bod wrthi ers dros ugain mlynedd yn creu nifer o eitemau a chlai megis cwpannau, llestri a hydynoed gemwaith. Cawsom gyflwyniad difyr ganddi am daith y clai o'r sach i fod yn eitem gorffenedig ar y silff yn y siop! Gan mai Titanic yw ein thema, penderfynodd y plant eu bod am fynd ati i greu powleni amlbwrpas i'r dosabrth cyntaf. Diolch yn fawr iawn Bethan, edrychwn ymlaen yn fawr i'w gweld ar ôl bod yn y odyn (popty clai)!

### Damwain ynteu ddiogelwch? Car ynteu gerdded?

Ers sawl blwyddyn bellach, mae plant, staff a Llywodraethwyr Ysgol Pen y bryn wedi bod yn poeni'n aruthrol am sefyllfa beryglus y traffig sydd y tu allan i'r ysgol, yn ogystal â'r llwybr cerdded a'r groesffordd sy'n wynebu'r plant wrth gerdded adref am Gerlan ac Abercaseg.

Ydych chi yn riant, nain a taid, perthnasau a ffrindiau sydd yn dod mewn car efo'ch plant yn y bore neu'r prynhawn?

Ydych chi wedi bod yn dyst i ddigwyddiad allai fod yn drychinebus?

Ydych chi fel rhiant yn berffaith hapus fod eich plant chi yn ddiogel wrth ddod ar y beic i'r ysgol ac ar y ffordd adref ddiwedd y dydd? Ydyn nhw'n gwisgo helmed?

Tybed allwch chi feddwl am rai newidiadau i'r drefn a fuasai yn diogelu eich plant chi a phlant pobl eraill?

Tybed a fyddai'n bosib i chi beidio a pharcio ar lwybr cerdded y plant?

Mae'r Cynghorydd lleol sydd ar fwrdd Llywodraethwyr yr Ysgol yn ogystal ag aelodau a Chadeirydd y Llywodraethwyr wedi cynnal sawl cyfarfod â swyddogion Cyngor Gwynedd i ddatgan pryder a siom am y sefyllfa beryglus y mae plant Ysgol Pen y Bryn yn ei wynebu yn ddyddiol.

Mae'r drafodaeth yma yn parhau a byddwn yn dal i atgoffa pawb bod diogelwch ein plant yn hollbwysig, a bod gan bawb gyfrifoldeb i ofalu fod hyn yn flaenoriaeth.

Dyma rai o'r ardaloedd peryglus y tu allan i'r ysgol ddiwedd y dydd pan mae llawer o geir a faniau wedi parcio yno.









Rhifyn Tachwedd - deunydd i law erbyn
**dydd Mercher**, **31 Hydref** os gwelwch yn dda.
Plygu **nos Iau**, **15 Tachwedd**,
yn Festri Capel Jerusalem am 6.45.

## Ysgol Llandygai

**Croeso**
Croeso i naw o ddisgyblion Newydd i Ddosbarth Traed Bach eleni. Maent wedi ymgartrefu yn yr ysgol ac yn mwynhau dysgu.

**Croeso nôl**
Rydym yn hynod o falch o gael croesawu ein gwirfoddolwyr darllen ffyddlon, sef Mr Richard Lloyd Jones, Mrs Iona Jones, Mrs Leverett, Mr Neville Hughes ac Anti Barbara. Rydym yn wirioneddol ddiolchgar iddyn nhw am eu hamser a'u diddordeb yn natblygiad disgyblion Ysgol Llandygai.

**Beicio**
Mae disgyblion Dosbarth Tirion wedi cwblhau hyfforddiant beicio Lefel 1 a 2. Llongyfarchiadau mawr i bawb.

**Dosbarthiadau Enfys a Thraed Bach**
Bu disgyblion Dosbarthiadau Enfys a Thraed Bach yn brysur ddechrau'r tymor yn ceisio dyfalu pwy oedd wedi bod yn y dosbarthiadau dros wyliau'r Haf gan adael pethau lliwgar ar ei ôl / ei hôl. Daeth yr ateb pan gafwyd llythyr gan Elfed yr Eliffant, oedd wedi gadael sgarff, blanced a phethau eraill lliwgar yn y dosbarth!

**Ymweliad NSPCC**
Daeth dau aelod o weithlu'r elusen atom i sgwrsio a rhannu negeseuon pwysig gyda disgyblion yr ysgol. Cawsom gyfle i gyfarfod Bydi a'i neges oedd fod gan bob plentyn yr hawl i fod yn ddiogel. Neges bwerus a phwysig iawn.

**Ymwelwyr o Japan**
Daeth criw o fyfyrwyr o Japan i dreulio prynhawn yng nghwmni disgyblion Dosbarth Tirion yn ddiweddar. Cawsant flas o ddiwylliant y wlad.

**Diwrnod Sgwtera i'r Ysgol**
Diolch i bawb a gefnogodd y fenter ac i'r rhai hynny fu'n brysur yn addurno eu sgwteri yn unol â thema'r Hydref. Diolch i rieni yr ysgol am eu cefnogaeth.



**Hywel Williams**
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

**CYMORTHFEYDD**
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon:

**Swyddfa Etholaeth,** 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

**Swyddfa Etholaeth,** 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

**williamshy@parliament.uk**

MODURON PANDY Cyf.

**MOT Diesel a Chatalydd**
**Atgyweirio MOT**
**Gwasanaethu Cerbydau**
**Cydbwyso Teiars**
**Batris**
**Tracio**

**01248 600619**

**moduronpandy@yahoo.com**
**www.moduronpandymotors.co.uk**

**Tregarth, Bangor,**
**Gwynedd LL57 4AY**

UNIPART CAR CARE CENTRE

# gair neu ddau

John Pritchard

## Diolchgarwch Google

Rhaid i mi gyfaddef ar y cychwyn nad yw'r erthygl hon wedi ei seilio ar nac ymchwil trylwyr na dadansoddiad manwl ond yn hytrach ar ddau neu dri munud o ddefnydd o *Google*! Ddylwn i ddim doethinebu ar unrhyw bwnc ar sail yr argraffiadau cyntaf a ddaw o wneud hynny. Gall argraffiadau cyntaf fod yn gamarweiniol neu'n anghywir. Rwy'n llawn sylweddoli hynny. Ac eto, goddefwch i mi fentro dweud rhywbeth a'm trawodd wrth i mi fod mor ddiog â defnyddio *Google* i chwilio am gyfeiriadau at y gair 'Diolchgarwch'.

Yn ddiddorol iawn, mae mwy o lawer o gyfeiriadau at y 'Diolchgarwch' ar wefannau ysgolion na gwefannau eglwysi. Nid fy mod wedi edrych yn fanwl ar bopeth y mae *Google* yn ei restru, cofiwch. Golwg sydyn gefais i ar ryw chwech neu saith o dudalennau cyntaf *Google* am y pwnc; ac yn amlach na heb mae'r tudalennau hynny'n cyfeirio at ddathliadau'r 'Diolchgarwch' mewn ysgolion yn hytrach nag eglwysi. Wrth gwrs, gall fod rheswm syml iawn dros hynny: mae gan bron bob ysgol ei gwefan ei hun, ond nid yw'r un peth yn wir am eglwysi. Mae'n gwbl ddealledig fod *Google* yn dod o hyd i fwy o gyfeiriadau at ysgolion nag eglwysi.

Ac eto, tybed nad oes hefyd ryw wirionedd yn yr hyn a awgrymir gan *Google*? Tybed nad yw'n wir fod ysgolion yn gwneud mwy o sylw o'r Ŵyl Ddiolchgarwch nag a wna aml i eglwys erbyn hyn? Mae'n dda bod ein hysgolion yn cynnal gwasanaethau Diolchgarwch, ond mae'n rhyfedd iawn os ydyn nhw'n gwneud mwy o sylw o'r Ŵyl nag a wnawn ni fel eglwysi. Ac o ran yr hyn a ddengys *Google* am Ddiolchgarwch yr eglwysi, mae'n ymddangos fod oedfaon Diolchgarwch gan y plant yn llawer iawn mwy cyffredin nag unrhyw gyfarfod arall. Mae yna gyfeiriadau at ambell i 'bregeth Diolchgarwch', ond prin iawn yw'r sôn am oedfaon gweddi ar yr Ŵyl. Unwaith eto, rhaid pwysleisio mai argraffiadau sydyn yn unig yw hyn oll. Ond pa mor anwyddonol bynnag yw'r dadansoddiad, mae'n cadarnhau i mi mor wahanol yw'r Ŵyl heddiw o'i chymharu â'r hyn ydoedd flynyddoedd yn ôl pan oedd eglwysi'n cynnal cyfarfodydd gweddi i ddiolch am ddaioni a haelioni a gofal Duw.

Ond boed *Google* yn gwybod hynny ai peidio, mi fydd yna eleni eto oedfaon Diolchgarwch yn ein capeli a'n heglwysi. Ac wrth ddathlu'r Ŵyl, mi fyddwn gobeithio yn diolch am fendithion gras yn ogystal â bendithion rhagluniaeth. Diolchwn am brydferthwch yr iachawdwriaeth yng Nghrist yn ogystal â phrydferthwch y Cread. Diolchwn am Iesu Grist, gwir Fara'r Bywyd yn ogystal â'n bara beunyddiol. A diolchwn nid yn unig am wlad heddychlon ond am Efengyl y cymod a'r heddwch â Duw a geir trwy ei annwyl Fab Iesu.

# Tregarth

**Olwen Hills (Anti Olwen),**
44 Bro Syr Ifor, Tregarth ☎ 600192
**Angharad Williams,**
23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth ☎ 601544

**Diolch**
Hoffai Cylch Meithrin Tregarth ddiolch i bawb am eu cefnogaeth a'u rhoddion hael yn ystod y Ffair Haf ym mis Gorffennaf. Codwyd dros £800.00 i'r cylch, i brynu adnoddau newydd addysgol i'r plant dros y flwyddyn ysgol eleni. Hefyd, diolch yn fawr i Mr Hywel Williams am ei rodd o £125.00 trwy'r cwmni ymchwil Resource, a diolch yn fawr iawn am rodd gwerth £50 er cof am Tracey Smith.

**Profedigaeth**
Mae amryw o deuluoedd lleol wedi colli rhai annwyl yn ddiweddar a'n dymuniad fel ardal ydi cydymdeimlo gyda chi i gyd yn eich colled. Dyma y rhai y cawsom wybod amdanynt:

Ar Fedi 19, yn Ysbyty Bryn Seiont, Cernarfon, bu farw Paula Jones, Iscoed, Graig Pandy, Tregarth yn 95 mlwydd oed. Cydymdeimlwn gyda'i meibion Albert, Peter a Michael, ei merched yng nghyfraith Carol a Ceri, ei wyrion Michael a Mark a'i gorwyrion Sean, Steven, Keira , Mathew a'r teulu.

Bu farw nain Angela Griffiths, Hen Orsaf yr Heddlu, Tregarth, sef Mary Gweneth Griffiths, Gors yr Eira, Mynydd Llandegai ar Fedi 23 . Anfonwn ein cofion at Angela a Meirion, Catrin a Morgan, Cedri a'r holl deulu.

Trist yw cofnodi marwolaeth Eira Lloyd Crocombe, Tai Teilwriaid, Tregarth, yn 83 mlwydd oed, ar Fedi 28. Roedd yn briod â'r diweddar Leslie, yn fam i Pamela a'i mab yng nghyfraith Paul, yn nain i Matthew ac yn ffrind i Paul a chwaer annwyl i Tegai.

Cydymdeimlwn gyda Bethan, Dylan a Nel a'r teulu yn eu profedigaeth o golli taid Bethan a hen daid Nel sef Glyn Griffiths, Carwyn, Ffynnon Bach, Tregarth ar Hydref 1 yng Nghartref Bryn Seiont, Caernarfon.

**Yn yr Ysbyty**
Ar hyn o bryd mae Mrs Edith Hughes, 5 Erw Faen, yn Ward Prysor, Ysbyty Gwynedd, a dymunwn wellhad llwyr a buan iddi.

Bu Morgan Jones, mab Einir ac Aled Wyn Jones, Henli, Pendinas, yn Ysbyty Gwynedd. Cofion a phob dymuniad da i tithau am wellhad buan.

**Merched y Wawr, Cangen Tregarth**
Cafwyd cychwyn ardderchog i dymor newydd o Gangen Tregarth o Ferched y Wawr, Nos Lun, Medi 3, yn Festri Capel Shiloh. Croesawyd pawb gan y Llywydd, Gwenda Davies, a braf oedd cael croesawu aelodau newydd sbon yn ogystal â'r hen stejars ifanc a chanol oed!

Diolchodd Gwenda i'r swyddogion sydd wedi cytuno i gario ymlaen eto leni sef, Anwen a Valerie yn ysgrifenyddion a Moira ac Olwen yn drysoryddion. Braf iawn oedd cael swyddogion newydd sydd yn barod i arwain flwyddyn nesa, sef Myfanwy, Allison ac Andrea. Diolchodd hefyd i Myfanwy am baratoi y rhaglen ar y cyfrifiadur ar ein cyfer eto leni ac mae wedi gwneud hynny ers unarddeg mlynedd bellach.

Cydymdeimlwyd gydag un o'n haelodau sef Mair Roberts a'r teulu a gollodd ei phriod, sef y diweddar Alwyn Roberts, yn ystod mis Awst. Daeth profedigaeth i un arall o'r aelodau sef Ann Hughes, Ffordd Tanrhiw, a gollodd ei phriod, Tudur Hughes, ym mis Awst.

Dymunwyd yn dda i fab Mona Jones, Ian, fu'n cael llawdriniaeth yn Ysbyty Walton yn ddiweddar.

Wedi trafod materion eraill yn ymwneud â'r Mudiad, rhoddwyd croeso i bedair o'r aelodau i arddangos trysorau oedd ganddynt yn eu meddiant, sef Janet, Lynda, Carys a Moira a chafwyd hwyl a difyrwch yn gwrando ar y bedair. I orffen y noson agoriadol, paratowyd lluniaeth ysgafn a diolchwyd am noson lwyddianus gan y llywydd.

Ar Hydref 1 cawsom gwmni y cerddor, cantores a thelynores Gwenan Gibbard o Bwllheli. Noson i'w chofio, yn ôl pawb oedd yno. Cychwynwyd y noson gyda chân y Mudiad, sef Ein Hiaith a'n Gwlad. Cyfeiliodd Gwenan ar y delyn a datgelodd mai hi oedd newydd baratoi y copi o'r gân ar gyfer y Mudiad - sgŵp i ni fel Cangen yma yn Nhregarth! Braf oedd cael croesawu nifer o aelodau'r gangen yn Rhiwlas i ymuno â ni yn y noson arbennig yma. Yn ystod y noson, a noddwyd gan Noson Allan Fach, Cyngor y Celfyddydau, cyflwynodd Gwenan ganeuon gwerin , cerdd dant a chaneuon gwerin o'r gwledydd Celtaidd ac o'r Wladfa ym Mhatagonia. Mae Gwenan yn llysgennad gwych i ganu gwerin Cymru a diolchwyd iddi gan Eirwen ar ran y gangen.

Llongyfarchwyd Jên am gael ei dewis i fod yn Gadeirydd Pwyllgor Celf Rhanbarth Arfon a diolchwyd i Margaret a Jên am eu llwyddiant ar ran y Rhanbarth yn Sioe Llanelwedd ac am drefnu y Noson Gelf yn y Ganolfan Gymdeithasol yn Nhregarth ym mis Mehefin .

Rhoddwyd manylion y cinio Nadoligm fydd yn cael ei gynnal ym Mwyty Teras, Prifysgol Bangor, ar Ragfyr 3.

Cafwyd manylion y Cwis Hwyl fydd yn cael ei gynnal yng Ngwesty Meifod ar Dachwedd 9 a darllenwyd llythyr a dderbyniwyd gan Bartneriaeth Ogwen.

Bydd y gangen yn cyfarfod nesaf ar Dachwedd 5 pan y cawn noson o hoff risetiau'r aelodau. Croeso cynnes i bawb i Festri Capel Shiloh am 7.30 o'r gloch.

**Capel Shiloh Tregarth**
Gwasanaethau am 5 o'r gloch
*Hydref*
21 Gwynfor Williams, Caernarfon
28 Richard Gillion

*Tachwedd*
4 Richard Gillion
11 Idris Thomas, Dinorwig
18 Philip Barnett, Swydd Efrog
25 Ellie Jones, Coed y Parc, Bethesda

*Gwellhad buan*
Rydan ni'n anfon ein cofion at flaenores hynaf Capel Shiloh, sef Mrs Edith Hughes, Erw Faen. Mae Edith yn Ysbyty Gwynedd ers ei phenblwydd ym Mis Hydref ac yn gobeithio y caiff ddod adre yn fuan.

**Eglwys y Santes Fair**
*Gwasanaethau*
Hydref 21 – Boreol Weddi
Hydref 28 – Cymun Bendigaid
Tachwedd 4 – Boreol Weddi
Tachwedd 11 – Sul y Cofio (Cymun)
Tachwedd 18 – Boreol Weddi
Pob gwasanaeth am 9:30yb
Ar ddydd Sul y Cofio fydd y gwasanaeth ac yna byddwn yn mynd at gofeb giât yr eglwys erbyn 11yb.

**Eglwys y Gelli**
*Ffair Hydref*
Dydd Sadwrn, Tachwedd 3, 12 o'r gloch
Cawl / Cacennau a phaned / Raffl / Tombola




Ganrif i'r mis hwn
ER COF
**WILLIAM JOHN WILLIAMS**
Rhif 76121
B Coy. 14th Bn.,
Byddin Frenhinol Ffiwsilwyr Cymreig
A fu farw 5 – 10 – 1918
Yn 20 ml. Oed
Mab John S, ac Ann Williams
12 Well St, No 3 Gerlan, Bethesda.
DOINGT COMMUNAL CEMETERY
EXTENSION
FFRAINC

WILLIAM R. JONES
20 – 10 – 1918

## Ysgol Abercaseg

**Croeso nôl**
Croeso mawr i bawb ar ddechrau blwyddyn ysgol ac i'r plant meithrin sydd wedi ymgartrefu yn eu dosbarth yn hynod o dda. Edrychwn ymlaen at gael blwyddyn llwyddiannus arall yng nghwmni ein gilydd. Hoffwn groesawu y cymorthydd Catrin Griffiths sy'n ymuno â staff yr ysgol.

**Diogelwch Tân**
Croeso nôl i Gwawr, y swyddog tân, a fu'n sgwrsio â phlant Bl2 ynghylch diogelwch tân. Bu'n dangos offer a'r dillad arbennig mae'r diffoddwyr tân ei angen i wneud eu gwaith. Roedd pawb wrth eu boddau yn cael cyfle i wisgo'r dillad! I gloi'r ymweliad, cafodd pawb waith cartref ganddi sef sicrhau fod eu larwm tân yn gweithio adref.




**Rygbi**
Daeth Rhys, y Swyddog Rygbi, i ddysgu sgiliau rygbi i blant Bl2. Roedd pawb yn gwrando'n astud iawn ar ei gyfarwyddiadau . Dysgodd gemau hwyliog yn ymwneud â'r chwaraewyr rygbi, George North a Sam Warburton. Diolch yn fawr Rhys – roedd pawb wedi mwynhau'r sesiynau.

**Clwb Creadigol a'r Clwb Darllen**
Mae'r clybiau wedi cychwyn eto eleni a'r tymor yma, clybiau creadigol a chlwb darllen sy'n cael eu cynnal. Cynhaliwyd y clybiau ar gyfer blynyddoedd 1 a 2 . Bu Bl2 yn mwynhau'r clwb creadigol a Bl 1 gyda chlwb darllen. Cynhaliwyd nifer o weithgareddau amrywiol i hybu sgiliau creadigrwydd a sgiliau darllen y plant.

**Dewis arweinyddion**
Bu'r plant yn brysur yn dewis aelodau newydd ar gyfer Sgwad Syniadau, Ffrindiau'r Byd, Bysedd Gwyrdd a Ffrindiau'r Ffitrwydd.

## Mynydd Llandygái

**Theta Owen**, Gwêl y Môr, Mynydd Llandygái ☎ 600744

**Cydymdeimlo**
Anfonwn ein cydymdeimlad at deulu Mrs. Margaret Oliver, mam annwyl i Gareth, Arwyn, Maud a Mai a nain hoffus i'w hwyrion a'i hwyresau.

Cydymdeimlwn â theulu Mrs Paula Jones, sef y plant, Albert, Peter a Michael, a'r merched yng nghyfraith, Carol a Ceri. Roedd yn nain i Michael ac yn hen-nain i Sean, Steven, Keira a Mathew. Colled fawr i'r teulu a'i ffrindiau.

Mae David, Corina, Danna a Kevin, wedi colli eu tad, Mr. Tom Hughes, yn ddiweddar. Cydymdeimlwn â'r teulu oll yn eu profedigaeth.

Yn ddiweddar, bu farw Mrs. Gweneth Griffith, a hithau'n 104 mlwydd oed. Mam gariadus Myrddin ac Einir, a mam yng nghyfraith Marilyn a David. Roedd yn nain, yn hen-nain ac yn hen-hen-nain annwyl. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch i gyd fel teulu.

Rydym yn meddwl am bawb ohonoch yn eich galar a'ch hiraeth am eich hanwyliaid.

**Diolch**
Mae Clwb Gwirfoddol yr Ieuenctid yn cael ei gynnal yn y neuadd bob nos Fawrth. Diolch yn fawr i'r cyn-gynghorydd Mrs. Gwen Griffith am ei chefnogaeth, a hefyd i Gyngor Cymuned Llandygai am eu cefnogaeth hwythau. Llawer o ddiolch!

**Ysbyty**
Mae Mrs. Megan Parry yn wael yn Ysbyty Gwynedd. Anfonwn ein cofion atoch gan ddymuno adferiad buan i chwi, Megan.

**Eglwys St. Ann a St. Mair**
Sul 1af a'r 3ydd: 9.30 y.b. Boreol Weddi
2ail a'r 4ydd: 9.30 y.b. Cymun Bendigaid.

Cynhelir y Gwasanaeth "Naw Llith a Charol" fore Sul, 16eg Rhagfyr. Estynnwn groeso cynnes i bawb ymuno â ni dros Ŵyl y Geni. Cofiwn am bawb sy'n sâl ar hyn o bryd ac anfonwn ein cofion cywiraf atoch i gyd.

**Ffair Nadolig yr Eglwys**
Sadwrn, 17eg Tachwedd, 11 - 2 p.m.
yn y **NEUADD GOFFA,**
Mynydd Llandygai.

Bydd amrywiaeth o stondinau yn ôl yr arfer; lluniaeth ysgafn dros yr awr ginio a hefyd bydd Siôn Corn yn ymweld â ni - cofiwch ddod a'r plant i'w weld!

## Nant Ffrancon

**Capel Nant y Benglog**
*Trefn y Gwasanaethau (am 2.00yp.)*
*Hydref*
21: Mr. Arwel Roberts.
28: Parchg. Dafydd Coetmor Williams.

*Tachwedd*
4: Parchg. Carys Ann.
11: Parchg. Ifor ap Gwilym.
18: Fferm y Royal.

Croeso cynnes i bawb.

## Llythyrau

Annwyl olygydd,
Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn galw am siaradwyr Cymraeg i wirfoddoli ar gynllun cenedlaethol newydd o'r enw 'Siarad'. Nod y cynllun yw i baru siaradwyr Cymraeg gyda dysgwyr er mwyn rhoi cyfle i ddysgwyr ymarfer yr iaith mewn awyrgylch anffurfiol a magu hyder.

Mae'r cynllun wedi cael ei beilota mewn pedair ardal wahanol yn gynharach eleni ac wedi bod yn llwyddiant. Cynhaliwyd lansiad yn yr Eisteddfod Genedlaethol ac erbyn hyn mae cyfle i ddysgwyr a siaradwyr Cymraeg ar draws Cymru i gymryd rhan.

Mae'r cynllun ar gyfer dysgwyr sy'n dysgu ar lefel Canolradd neu'n uwch y sector Dysgu Cymraeg. Bydd parau yn ymrwymo i gwrdd am oleiaf 10 awr i sgwrsio. Bydd y dysgwyr yn cael gwybodaeth am weithagreddau a chyfleon i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu hardaloedd lleol hefyd.

Am fwy o wybodaeth, anfonwch e-bost os gwelwch yn dda at swyddfa@dysgucymraeg.cymru neu ewch i gofrestru ar dysgucymraeg.cymru/dysgu/siarad

Yn gywir iawn,
**Hawys Roberts**
Prif Swyddog Cyfathrebu

Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol — National Centre for Learning Welsh

Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol
hawys.roberts@dysgucymraeg.cymru

# Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn?

## DYDDIADUR BOREAU COFFI 2018

**2018**

*Hydref*

20 Cefnfaes – Eglwys St. Cedol.
27 Festri Jerusalem – Eisteddfod Dyffryn Ogwen.

*Tachwedd*

03 Cefnfaes – Neuadd Talgai.
10 Cefnfaes – Clwb Camera
17 Cefnfaes – Gofalwyr Gwynedd a Môn.
24 Caffi Coed y Brenin – NSPCC
24 Festri Jerusalem – Cronfa Cancr y Prostrat.

*Rhagfyr*

01 Cefnfaes – Plaid Lafur
08 Cefnfaes – Ysgol Sul Jerusalem
15 Cefnfaes – Cylch Meithrin Cefnfaes.

**2019**

*Ebrill*

27 – Cefnfaes – Cymdeithas Capel Jerusalem

*Pwysig*

*Os yn trefnu Bore Coffi yn ardal Bethesda, bydd y rhestr uchod yn gymorth i chi ddewis dyddiad gwag. Gallwch wedyn gynnwys eich dyddiad chi ar y rhestr hon. Bydd yn cael ei diweddaru ac yn ymddangos pob mis. Anfonwch y manylion at Neville Hughes (600853).*

## Marchnad Ogwen

**Tachwedd 10fed**
**Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.00pm**

**Tachwedd 21ain**
**Neuadd Ogwen, 5.00pm - 8.00pm**

**Rhagfyr 8fed**
**Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.00pm**

Bwydydd, Crefftau, Lleol

**www.marchnadogwen.co.uk**
**Facebook**

I hysbysebu yn **Llais Ogwan, Neville Hughes** 600853 (nev_hughes@btinternet.com)

CANOLFAN CEFNFAES

## GYRFA CHWIST

HYDREF 23 a 30
TACHWEDD 13 a 27
am 7:00 o'r gloch. Croeso i bawb

## Clwb Camera Dyffryn Ogwen

**Croeso Cynnes i Bawb**

Lleoliad: Yn dilyn tân yn Cefnfaes, ebostiwch gwynedd2001@outlook.com am ragor o fanylion am bob cyfarfod

**Rhaglen Hydref -Tachwedd 2018**

| | |
|---|---|
| **Hydref 17** | 'Tirluniau' gyda Tom Dodd, FRPS, DPAGB, FIPF. |
| **Hydref 31** | Cystadleuaeth Agored. Beirniad: David Flitcroft APAGB, DPAGB, BPE2 |
| **Tachwedd 10** | (**Dydd Sadwrn**) Bore Coffi, Cefnfaes |
| **Tachwedd 14** | 'Ffotograffiaeth Oediog' efo Steve Lewis, ARPS |
| **Tachwedd 16** | (**Dydd Gwener**) 'Cystadleuaeth 6 Ffordd'. Beirniad: Andy Polakovski. Prifysgol Bangor – Brambell Building, Ffordd Deiniol. |
| **Tachwedd 28** | Noson efo Tony Starczewski |

*Gweler gwefan y clwb am ragor o wybodaeth a lluniau gan aelodau:*
*www.dyffrynogwencamera.co.uk*

## CYMDEITHAS HANES DYFFRYN OGWEN

**Nos Lun, 12 Tachwedd am 7.00yh**

**yn Festri Capel Jerusalem**
**Einion Thomas**
**"Dynion Parchus? Y Potsiars Cymreig."**

**£1.50 wrth y drws neu am ddim i aelodau**

## Ffair Nadolig

**Eglwys St. Ann a St. Mair**

yn Neuadd Goffa
Mynydd Llandygai
**Sadwrn, 17 Tachwedd**
11.00 – 2.00

## CYFARFOD BLYNYDDOL LLAIS OGWAN

NOS FERCHER
7 TACHWEDD 2018
AM 7.30
YN LLYFRGELL BETHESDA

CANOLFAN CEFNFAES

## BORE COFFI GOFALWYR GWYNEDD A MÔN

SADWRN, 17 TACHWEDD
10.00 – 12.00
MYNEDIAD: £1.00

CANOLFAN CEFNFAES

## BORE COFFI NEUADD TALGAI

SADWRN, 3 TACHWEDD
10.00 – 12.00
MYNEDIAD : £1.00

FESTRI JERUSALEM

## BORE COFFI EISTEDDFOD DYFFRYN OGWEN

SADWRN, 27 HYDREF
10.00 – 12.00
MYNEDIAD : £1.00

CANOLFAN CEFNFAES

## BORE COFFI EGLWYS ST. CEDOL

SADWRN, 20 HYDREF
10.00 – 12.00
MYNEDIAD : £1.00

CANOLFAN CEFNFAES

## BORE COFFI CLWB CAMERA DYFFRYN OGWEN

SADWRN, 10 TACHWEDD
10.00 – 12.00
MYNEDIAD : £1.00

**Ceisiadau am Nawdd Ariannol**
**Hysbysiad Pwysig**

Mae
**Cyngor Cymuned Llanllechid**
yn gwahodd
ceisiadau am nawdd ariannol gan
Gymdeithasau/Mudiadau lleol.

Os ydych am wneud cais anfonwch eich Mantolen Ariannol ddiweddaraf ynghŷd â manylion eich banc at y Clerc cyn 31 Rhagfyr 2018

Clerc a Phrif Swyddog Ariannol:
**Donna Watts**,
Cyngor Cymuned Llanllechid,
26 Stryd Fawr,
Bethesda, LL57 3AE.
01248 602131
**E bost: cyngorllanllechid@ogwen.org**

---

**Ceisiadau am Nawdd Ariannol**
**Hysbysiad Pwysig**

Mae
**Cyngor Cymuned Llandygai**
yn gwahodd
ceisiadau am nawdd ariannol gan
Gymdeithasau/Mudiadau lleol

Os ydych am wneud cais anfonwch eich Mantolen Ariannol ddiweddaraf ynghŷd â manylion eich banc at y Clerc cyn **31 Rhagfyr 2018**

Clerc a Phrif Swyddog Ariannol:
Donna Watts,
Cyngor Cymuned Llandygai,
26 Stryd Fawr,
Bethesda, LL57 3AE.
01248 602131
E bost: cyngorllandygai@ogwen.org

---

**Ceisiadau am Nawdd Ariannol**
**Hysbysiad Pwysig**

Mae
**Cyngor Cymuned Bethesda**
yn gwahodd
ceisiadau am nawdd ariannol gan
Gymdeithasau/Mudiadau lleol

Os ydych am wneud cais anfonwch eich Mantolen Ariannol ddiweddaraf ynghŷd â manylion eich banc at y Clerc cyn **31 Rhagfyr 2018**

Clerc a Phrif Swyddog Ariannol:
Donna Watts,
Cyngor Cymuned Bethesda,
26 Stryd Fawr,
Bethesda, LL57 3AE
01248 602131
E bost: cyngorbethesda@ogwen.org

Carmel Llanllechid
# Te Bach
yn y festri

**Pnawn Llun, 22 Hydref**
2.30 – 4.00
Croeso i bawb

## Jamiau Cartra'
(Neville ac Angharad)
**Pecynnau Amrywiol ar gyfer y Nadolig**

Galwch heibio'r stondin
ym Marchnad Ogwen
**Sadwrn, 10 Tachwedd**
(neu ffoniwch 600853)

## Cymdeithas Jerusalem
Nos Iau, 8 Tachwedd
am 7.00yh
yn Festri Jerusalem
Sgwrs gan Y Dr. Gwyn Lewis.

**Elwyn Jones & Co**
hefyd yn masnachu fel
**Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP**
- Cyfreithwyr -
123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224
*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol*
*Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*
*Swyddfeydd eraill:*
*Llangefni* (01248) 723106 · *Porthaethwy* (01248) 719517 · *Benllech* (01248) 852782
*Caernarfon* (01248) 673616 · *Pwllheli* (01758) 703000




# *Garddio*

**Plannu bylbiau**
Wrth i'r dyddiau fyrhau, rŵan ydy'r amser i blannu bylbiau'r gwanwyn. Mae'r pridd yn dal yn gynnes ac fe fydd cyfle iddyn nhw fagu gwreiddiau, ond gadewch blannu tiwlipau tan ddiwedd Tachwedd. Oergaledwch nhw cyn eu plannu. Os am eu gosod yn anffurfiol, taflwch nhw i fyny wedyn eu plannu lle maen nhw'n disgyn.

**Creu lawnt**
Rŵan yw'r amser hefyd i greu lawnt newydd, neu ei thrwsio, ei hawyru a'i sgriffio. Parhewch i dorri lawnt sefydlog sy'n dal i dyfu, ond gadewch hyd at 3" o dyfiant dros y gaeaf. Mae'n well peidio â'i droedio, os yn bosibl.

**Cyffredinol**
Torrwch hen dyfiant coediog i lawr at y bonyn. Bwydwch camelia, tri lliw ar ddeg (hydrangea) a rhododendron â gwrtaith arbennig i flodau sy'n hoffi pridd asid. Defnyddiwch y llawnder tymhorol o ddail a glaswellt ar gyfer eich tomen gompost. Dewch â'r planhigion tŷ i mewn dros y gaeaf, a'u cynefino'n raddol i'r tymheredd gwahanol.

Bydd angen i offer yr ardd gael eu glanhau a'u hogi cyn eu cadw dros y gaeaf. Cofiwch lanhau'r potiau hefyd. Mae 'Jeyes Fluid' gwan yn eu diheintio'n dda.



*Tri lliw ar ddeg (hydrangea)*

**Modurdy Central**
**M.O.T. ar gael**
**Hefyd**
**Trwsio a Gwasanaeth**
**Ar Allt Pen-y-bryn, Bethesda**
**☎601031**

## Braichmelyn

**Rhiannon Ifans**, Glanaber, Pant, Bethesda
☎ 600689

**Cydymdeimlo**
Cydymdeimlwn â theulu Oliver, Capel Cwta, yn eu profedigaeth o golli nain a hen nain annwyl, sef Mrs Margaret Oliver, Mynydd Llangygái.

**Croeso adref**
Croeso adref i'r Dr Goronwy Wyn Owen o'r ysbyty. Daliwch i wella, Goronwy a phob lwc i'r dyfodol.

# Hel Atgofion ar Gân gyda thrigolion o ardal Bethesda

Rydym yn falch o gyhoeddi'r parhad o brosiect Atgofion ar Gân i aelodau hŷn o'r gymuned yn ardal Bethesda.

Ers mis Tachwedd 2016, mae Canolfan Gerdd William Mathias wedi bod yn cynnal sesiynau cerddorol gyda thrigolion hŷn Gellilydan ac Awel y Coleg, Y Bala dan arweiniad y cerddor Nia Davies Williams. Gwahoddwyd plant o'r ysgolion cynradd lleol i gymryd rhan mewn sesiynau Camau Cerdd gyda Marie-Claire Howorth cyn ymuno i gyd-ganu a mwynhau gweithgareddau cerddorol gyda'r bobl hŷn.

Ers y comisiwn gan Uned Celfyddydol Cymunedol Cyngor Gwynedd mae'r sesiynau wedi helpu dod a phobl at ei gilydd i hel atgofion a mwynhau cerddoriaeth, yn ogystal â chodi hyder a chynnig cyfle i gyfarfod pobl newydd. Rydym yn hynod falch o'r gefnogaeth gan Cartrefi Cymunedol Gwynedd a Chanolfan Iechyd yr Hen Orsaf tuag at y prosiect eleni.

Ehangodd y prosiect i ardaloedd Bethesda a Deiniolen yn Hydref 2017 gyda nifer o aelodau newydd o'r gymuned yn mwynhau yng nghwmni Nia Davies Williams; sydd â llawer o brofiad ym maes cerddoriaeth a iechyd a llynedd wedi ennill gwobr Ymddiriedolaeth Bryn Terfel am Hyrwyddo'r Celfyddydau Mewn Gofal. Mae'r sesiynau'n agored i unrhyw drigolion hŷn ddod draw am baned, sgwrs a chân ac i gwrdd â phobl newydd.

Cynhelir sesiynau Bethesda bob yn ail dydd Gwener rhwng 1:15 – 2:30yh yn y stafell gymunedol yng Nghanolfan Iechyd yr Hen Orsaf. Dyddiadau'r sesiynau fydd: Hydref 12, 26. Tachwedd 9, 23. Rhagfyr 7, 21. Ionawr 18. Chwefror 1, 15. Mawrth 1, 15, 29. Ebrill 12.

**Am unrhyw wybodaeth pellach, cysylltwch â**
Canolfan Gerdd William Mathias
01286 685230
nia@cgwm.org.uk

## Pwy Sy'n Cofio Ddoe?



© Dr J. Elwyn Hughes

# Cofio'r Carnifál (2)

Roedd rhaglen carnifál 1930 hanner maint un y flwyddyn flaenorol ac ar bapur pinc A5, yn awgrymu, efallai, fod yr esgid yn gwasgu ar wariant y Pwyllgor. Ar glawr y rhaglen, uniaith Saesneg drwyddi draw, ceir y pennawd 'BETHESDA', gyda llinell o dano ac yna 'Grand CARNIVAL June 14th 1930,
Official Programme of the Crowning Ceremony and Variety Entertainment by 70 Children in the Public Hall at 2.30 p.m. – yr un geiriad yn union ag ar glawr y rhaglen ym 1929! Fodd bynnag, roedd pris y rhaglen, lai ei maint, geiniog yn rhatach, sef 'Twopence' ond, wedi dweud hynny, codwyd chwe cheiniog am fynd i mewn i'r Neuadd (ond nid oes sôn am dâl mynediad ar raglen 1929). H. Penrhyn Jones [Lorne House], Bethesda, a gyhoeddodd y rhaglen hon eto.
Ar yr ail ddalen, â'r pennawd 'Court of H. M. Queen Gladys', ceir 'Her Majesty the Queen – Miss Gladys May Parry'. O dan hynny, cawn nifer o isbenawdau a rhesi o enwau o danyn nhw:
**Ladies-in-Waiting**. Hazel Rowlands a Rita Robinson. Dim ond dwy lle'r oedd wyth y flwyddyn cynt!
**Maids of Honour**: Audrey Griffith, Nesta Morgan, Beryl Pierce a Megan Francess Jones (yr un nifer ag ym 1929).
**Pages**: Elwyn Jones a David Roy Williams.
**Lord Chamberlain**: Tom Ashton.
**Crown Bearer**: Kenneth Purnell
**Accompanist**: Morfudd Williams
Yn wahanol i'r flwyddyn cynt, 'does dim sôn am na **Marshall**, **Morris Dancers, National Dancers**, **Maypole Dancers** na **Country Dancers** dan y penawdau hyn ar ail dudalen y rhaglen.
Ar y drydedd dudalen, ceir y'Programme':

1. **Overture**
2. **Crowning of the Rose Queen** by The Dowager Queen
3. **Recitation**: 'Hail to the Queen'
4. **Dance**: Ladies-in-Waiting
5. **Dance**: Maids of Honour
6. **Sea Shanties:** Glanogwen School
7. **Action Song**: Carneddi School
8. **Harp Selection**: Edna Roberts [a rhywun wedi newid 'Edna' yn 'Eldra' mewn pensal]
9. **Maypole Dance**: Gerlan School
10. **Welsh Dance**: Cefnfaes School
11. **Action Song**: Tregarth School
12. **Penillion Singing**: Ceridwen Thomas
13. **Dance**: Mabel Lewis, Hazel Rowlands, Cissie Owen
14. **Japanese Dance**: The Brownies
15. **Song and Dance**: Llanllechid National School
16. **Scotch Dance**: The Girl Guides
17. **Folk Dancing**: The Girls' Friendly Society
18. **Presentations to the Rose Queen**
19. **Ex-Queen Gweneth presenting Queen Gladys and her Court**

Daeth y cyfan i ben fel hyn:
'God Save the Queen - - - Hen Wlad Fy Nhadau'

Llenwyd tudalen gefn y rhaglen ag un hysbyseb, sef Price & Roberts, Manchester House, Bethesda, 'Specialists in Children's Wear ... General Drapers and Outfitters' ac, yn goron ar y cwbl, 'Court Dressmakers to Queen Gladys'!

Mae Rhaglen Carnifál 1931 ar goll o'm casgliad a rhoddaf sylw'r ddau fis nesaf i raglenni 1932 a 1933. Gwaetha'r modd, does gen i'r un rhaglen wedyn tan 1953 a bylchau lawer ar ôl hynny. Afraid dweud y byddwn yn hynod falch pe gellid llenwi'r bylchau hyn er budd haneswyr lleol y dyfodol.

Gair neu ddau cyn cloi. Mae'n amhosib dyddio rhai o'r rhaglenni yn fy nghasgliad gan na welwyd yn dda i nodi'r flwyddyn arnyn nhw – rhywbeth mor syml ond cwbl angenrheidiol ar bob math o ddogfennau (gan gynnwys tocynnau) sy'n cael eu cynhyrchu heddiw.

## Llandygái

**Iona Wyn Jones,** Dyma Fo, 16 Pentref, Llandygái, Bangor LL57 4HU
☎ 01248 354280
**Eirlys Edwards**, Sŵn y Coed, 23 Pentref Llandygái, Bangor LL57 4HU
☎ 01248 351633

**Priodas Diemwnt**
Llongyfarchiadau i Beryl a Jim Hughes, Yr Elen, Y Bryn. Maent wedi dathlu Penblwydd Priodas Diemwnt ar y 6ed o Fedi yn Lastra, Amlwch. Daeth llu o'r teulu a ffrindiau atynt i ddathlu Maent hefyd newydd ddod yn hen daid a nain i Theo William, mab i Clare a Ian. Llongyfarchiadau i'r teulu bach.

**Croeso**
Mae Nia a John Bagnall wedi symyd atom i Pennard yn y pentref o Borthaethwy. Croeso mawr i'n plith.

**Eglwys Sant Tegai, Llandygai**
*Gweithgareddau ym mis Medi a thrwy gydol Hydref*
Cafwyd cyfnod prysur yn yr eglwys yn ystod Medi a dechrau'r Hydref. Bu cyfle i fynychu sawl gwasanaeth Diolchgarwch ym Mro Ogwen yn cynnwys Gwasanaeth y Cynhaeaf yn Eglwys Sant Tegai ar ddydd Sul Hydref 8fed. Diolch i bawb fu'n glanhau ac addurno ein adeilad hardd a hanesyddol.

Diolch hefyd i bawb a gefnogodd Tombola a Raffl Eglwys Sant Tegai yn Neuadd Ogwen ar Medi 8 a'r Bore Coffi yng Nghanolfan Cefnfaes ar Medi 23. Codwyd dros £244 ar y diwrnod. Diolch yn arbennig i Pauline a Raymond am drefnu'r lluniaeth.

*Cinio Diolchgarwch*
Trefnwyd cinio Diolchgarwch i chwe eglwys Bro Ogwen ym mwyty Parc Carafannau Ogwen Bank ar ddydd Sul Medi 30. Y Chwaer Julian, sef Judith Page, oedd yn gyfrifol am y trefniadau a chafwyd pnawn difyr dros ben. Braf oedd cael cwmni y Parchedig Ddoctor Carol Roberts. Rydym yn dymuno'n dda iddi yn ei swydd newydd yn Eglwys Y Bala.

*Sul y Cofio, Tachwedd 11 2018*
I ddathlu Camlwyddiant Diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf, cynhelir gwasanaethau amrywiol yn y chwe eglwys anglicanaidd ym Mro Ogwen. Bydd clychau'r eglwys yn ein galw i wasanaeth arbennig yn Eglwys Sant Tegai am 10.50 y bore gyda Chymun Bendigaid a Seremoni y Cofio. Clywir y clychau yn canu unwaith eto gyda'r nos am 7 o'r gloch gyda Dathliad o'r Heddwch yn yr eglwys. Bydd hyn yn rhan o'r ymgyrch genedlaethol i gael pob clochdy yn y wlad i seinio'r heddwch ar y dyddiad hanesyddol. Clychau St Tegai yw'r unig res o chwe chloch dal i ganu yn y dyffryn ac, yn wir, yn yr ardal gyfan.

**Gwasanaethau Sant Tegai**
Y drefn arferol yn St Tegai yn ystod y mis yw: Gwasanaethau'r Sul cyntaf a'r pedwerydd Sul yn y mis am 9.30 y.b. Gwasanaethau ar yr ail a'r trydydd Sul yn y mis am 11 y.b.

# Plaid Cymru – Cangen Dyffryn Ogwen

Daeth cyfnod o newid yn hanes Plaid Cymru yn genedlaethol dan arweinydd newydd, Adam Price. Wedi ei fuddugoliaeth, diolchodd i'r ddau arall oedd yn y ras sef Leanne Wood a Rhun ap Iorwerth. Diolch hefyd i Leanne am ei harweinyddiaeth a'i gweledigaeth dros y chwe mlynedd diwethaf. Edrychwn ymlaen rŵan i'r dyfodol. Yma yng Nghanolfan Cefnfaes ar Fedi 29 cynhaliwyd bore coffi gan gangen y dyffryn. Daeth nifer dda o bobl ynghyd am baned a sgwrs. Yng nghanol ei phrysurdeb daeth Siân Gwenllian AC, ein Haelod Cynulliad, atom hefyd er mwyn cael sgwrs gyda'i hetholwyr. Difyr ydyw boreau coffi ein pentref!
Yng nghyfarfod ein cangen roedd yn bleser cael derbyn pedwar aelod arall i'n plith. Mae ein cynghorydd sir Rheinallt Puw yn helpu i geisio datrys y broblem


*Siân Gwenllian gyda'r Cynghorwyr Dafydd Owen a Rheinallt Puw yn ein bore coffi*

o draffig dwys sydd o flaen Ysgol Pen y Bryn yn ystod amser agor ac amser mynd adref. Mae hefyd wedi bod yn gwneud ymholiadau ynglyn â bysiau Arriva ac oriau agor Post Bethesda, yn dilyn cwynion gan drigolion.

**L. Sturrs a'i feibion**
sefydlwyd yn 1965
ADEILADWYR
Hen Iard Stesion,
Ffordd y Stesion, Bethesda
Ffôn: 600953
lsturrs@googlemail.com

**Ymgymerwr adeiladu a gwaith saer**
**Ronald Jones**
Bron Arfon, Llanllechid
Bethesda
☎ 01248 601052

**Cerbydau Penrhyn**
CABIAU A BYSIAU MINI
Ffôn: (01248) 600072
Meysydd awyr ♦ Porthladdoedd
Contractau
Contractwyr i Wasanaeth
Ambiwlans Gogledd Cymru

J. TEMPLE MORRIS A'I FAB
Pob Math o Waliau Cerrig,
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.
07770 900531
01248 600282
jtemplemorris@btinternet.com

Owen's Tregarth
Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd
*Arbenigo mewn meysydd awyr*
*Cludiant Preifat*
*a Bws Mini*

01248 60 22 60 | 07761 619 475
www.owenswales.co.uk

# Ysgol Tregarth

**Pnawn Coffi MacMillan**
Cafwyd ddiwrnod llwyddiannus iawn Dydd Gwener, Medi 28 pan gynhaliwyd pnawn o goffi a chacen i godi arian at elusen hollbwysig, elusen Macmillan a hefyd ar gyfer Ms Barnes a'r teulu. Bu'r Cyngor Ysgol yn hynod o brysur yn paratoi ac yn croesawu'r rhieni a theuluoedd yn ystod y prynhawn. Diolch o galon i Anti Shirley a'r Cyngor Ysgol am eu gwaith yn ogystal, a diolch i bawb a ddaeth i'n cefnogi ac i bawb a fu'n brysur yn coginio cacennau a bisgedi.

**Hyfforddiant Rygbi**
Braf iawn oedd cael croesawu Rhys Jones atom yn rhinwedd ei swydd fel Swyddog Datblygu Rygbi yn nalgylch Dyffryn Ogwen. Disgyblion blwyddyn 5 a 6 sy'n cael manteisio ar yr hyfforddiant a datblygu ei sgiliau yn ystod y tymor presennol. Rydym fel ysgol yn hynod falch o weld un o'n cyn-ddisgyblion yn dychwelyd i'w filltir sgwar a chyfrannu at weithgareddau y dalgylch. Llongyfarchiadau i Rhys ar ei benodiad ac ar ei waith clodwiw drwy'r dyffryn.

**Diolch**
Yn ystod tymor yr haf, buom yma yn Ysgol Tregarth yn lwcus iawn o dderbyn rhodd ariannol hynod garedig er cof am Mr Glyn Owen, 17 Maes Ogwen, Tregarth. Derbyniwyd y rhodd drwy law ei ferch Donna er cof amdano. Bu pedwar o blant Donna (wyrion Mr Owen) yn ddisgyblion yma yn Nhregarth, ac yn meddu ar atgofion hapus iawn o'u cyfnod yma.

Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd gwario'r rhodd ar fainc i'w gosod o flaen yr ysgol. Bydd y fainc yn ymddanogs yn fuan. Hoffem ddiolch o galon i'r teulu am eu caredigrwydd a'u rhodd hael.



**Beicio**
Bendigedig yw cyrraedd yma ar fore Llun, a gweld y lle'n byrlymu ac yn orlawn o feics o bob lliw, llun a maint! Crewyd y bwrlwm gan Tim o Beicio Cymru sydd yn rhoi hyfforddiant beicio i bob plentyn o Flwyddyn 1 i Flwyddyn 6 am gyfnod o chwech wythnos. Fel y gallwch ddychmygu, mae'r plant (a'u rhieni!) wedi gwirioni'n lân â'r sgiliau newydd.

**Ymweliad Blwyddyn 1 a 2**
Thema Dosbarth Llywelyn yr hanner tymor yma yw 'Albwm Teulu', felly i ffwrdd â ni am droi'r Amgueddfa Lechi, er mwyn cael dysgu mwy am hanes y chwarelwyr a gweld yr hen dai. Er gwaetha'r tywydd, cawsom ddiwrnod bendigedig, a phawb wedi mwynhau cael cyfarfod nifer o weithwyr yr Amgueddfa.

# Pentir

**Cynrig a Carys Hughes**,
Rallt Uchaf, Pentir, LL57 4YB.
☎ 01248 601318
E-bost: carys16@hotmail.com

**Eglwys St. Cedol, Pentir**
*Clwb 100 Mis Medi 2018*

| | | |
|---|---|---|
| 1af | Rhif 40 | Nesta Barton, Rhiwen |
| 2ail | Rhif 2 | Kim Roberts, Rhiwlas |
| 3ydd | Rhif 42 | Helen Burbage, Rhiwlas |

*Cydymdeimlad*
Fel eglwys anfonwn ein cydymdeimlad â theulu'r ddiweddar Eira Crocombe, Tai Telwriaid, Tregarth. Cydymdeimlwn â Pamela, Paul a Matthew yn eu profedigaeth o golli mam, mam yng nghyfraith a nain arbennig ac at Paul o golli cymar annwyl. Bydd ymadawiad Eira yn golled fawr i'w theulu a'i theulu eglwysig gan ei bod mor barod ei chymwynas a'i chefnogaeth. Derbyniwch ein cydymdeimlad dwysaf.

*Ffair Grefftau*
Ddydd Sadwrn 29 Medi yn Neuadd Bentref Rhiwlas, cynhaliwyd Ffair Grefftau, gyda amrywiaeth o stondinau gan grefftwyr lleol. Roedd yn ddiwrnod llwyddianus a hoffem ddiolch i'r stondinwyr a'r cyhoedd am eu cefnogaeth.

*Bore Coffi*
Bydd Eglwys St. Cedol yn cynnal Bore Coffi yng Nghanolfan Cefnfaes fore Sadwrn 20 Hydref rhwng 10yb a 12yb. Mae croeso cynnes i bawb.

*Ffair Nadolig*
Bydd ein Ffair Nadolig eleni ar brynhawn Sadwrn Tachwedd 24 am 1.30yh yn Y Ganolfan, Glasinfryn. Bydd amrywiol stondinau a lluniaeth. Croeso cynnes.

*Gwasanaethau'r Sul*
Mae'r gwasanaethu am 9.45yb

| | |
|---|---|
| 21.10.18 | Cymun Bendigaid |
| 28.10.18 | Boreuol Weddi |
| 4.11.18 | Cymun Bendigaid |
| 11.11.18 | Gwasanaeth Coffa – Boreol Weddi |
| 18.11.18 | Cymun Bendigaid |
| 25.11.18 | Boreol Weddi |

Mae croeso cynnes i chwi ymuno â ni ar gyfer y gwasanaethau.

Gareth Williams
Trefnydd Angladdau
Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda
Ffôn: (01248) 600763 a 602707
GWASANAETH DYDD A NOS

BYSUS
D. P. Owens
RHIWLAS
01248 361044 a 07771 634195

BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER EICH HOLL ANGHENION TEITHIO – TRIPIAU, PRIODASAU, PARTÏON AC ATI.
Bysus Gwyrdd Rhiwlas
GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

# Plaid Lafur Dyffryn Ogwen

Ar ddechrau Mis Medi ac wedi cynnal ymgyrch y rheilffyrdd y tu allan i orsaf Bangor, cynhaliwyd cyfarfodydd o Bwyllgor Ymgyrchu a Phwyllgor Gwaith Plaid Lafur Arfon, yn bennaf i baratoi ar gyfer etholiadau Cymru yn 2021 ac etholiadau San Steffan yn 2022. Hefyd, cynhaliwyd cyfarfod o aelodau Arfon i wrando ar areithiau am wrth-Semitiaeth a Brexit, a thrafod cynigion ar gyfer Cynhadledd Plaid Lafur Prydain yn Llynlleifiad (Lerpwl).

Yng nghanol y mis, cynhaliwyd cyfarfod o'r gangen, gydag anerchiad gan ddau o Ynni Ogwen i ddechrau a chyfle i ateb holiadur am waith Llywodraeth Cymru ar y diwedd. Am fod Susan Davies yn dymuno sefyll i lawr, etholwyd Jane Foster-Coulter o Bentref Llandygai yn gadeirydd. Eglurwyd bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu atal y defnydd o anifeiliaid mewn syrcasau ac yn ail-gyflwyno grantiau gwisg ysgol. Nodwyd hefyd na fydd pobl ifanc Gwynedd sy'n gadael gofal yn gorfod talu treth cyngor tan eu bod yn 25 oed a bod gan Gyngor Gwynedd gynllun pum mlynedd i leihau'r bwlch rhwng cyflogau'r ddau ryw. Nodwyd bod Cyngor Bethesda yn bwriadu prynu cyfarpar cae chwarae, a throsglwyddwyd rheolaeth Llys Dafydd i Bartneriaeth Ogwen. Cafwyd ateb gan Ysbyty Gwynedd i'r cwyn a godwyd am ddiffyg llefydd parcio yno a chrybwlyllwyd tri pheth a oedd wedi cael ei wneud; sef paratoi i greu llefydd ychwanegol, rhwystro staff rhag parcio mewn llefydd ar gyfer cleifion a chyflogi wardeniad i rwystro defnydd amrhiodol o'r llefydd parcio. Nodwyd nad oes modd darparu gwasanaeth parcio a reidio na chodi maes parcio aml-lawr ar hyn o bryd. Cyflwynwyd dau adroddiad gan Derek Vaughan (Aelod Seneddol Ewrop Llafur dros Gymru). Roedd y cyntaf yn dangos bod gwir gyfraniad Prydain i Ewrop yn £180 miliwn yr wythnos (nid y £350 miliwn a oedd ar ochr y bws) a bod Cymru'n elwa'n ariannol o'r berthynas yn hytrach na chyfrannu a cholli arian. Roedd yr ail adroddiad yn nodi bod arolygon barn diweddar yn dangos mwyafrif clir o blaid aros yn Ewrop a bod 63% o'r pleidleiswyr o blaid refferendwm arall.

Cynhaliwyd Taith Gerdded Noddedig Flynyddol y gangen ar Fedi 22 ar hyd Lôn Las Ogwen, gan godi swm sylweddol at dreuliau'r gangen.

Cynhelir cyfarfod nesaf y gangen ar yr ail nos Fercher yn Nhachwedd am 7:30 y.h. yng Nghanolfan Gymdeithasol Cefnfaes (ger Llyfrgell Bethesda), gyda blaenoraethau lleol yn bynciau trafod ar ddiwedd y cyfarfod.




**Siân Gwenllian**

Aelod Cynulliad Etholaeth Arfon

**CYMORTHFEYDD**

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch a'r swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon

**Swyddfa Etholaeth,** 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372948
**Swyddfa Etholaeth,** 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
(01286) 672076
Sian.Gwenllian@cynulliad.cymru


I hysbysebu yn **Llais Ogwan, Neville Hughes**
600853 (nev_hughes@btinternet.com)

# Bylbiau Balchder Bro

Mae Balchder Bro Dyffryn Ogwen wrthi'n brysur yn plannu cannoedd o fylbiau cennin pedr o gwmpas ardaloedd o fewn y Dyffryn. Dyma lun pump o'r criw fu wrthi'n plannu ar hyd Lôn Las Ogwen. Roedd y chweched, sef Neville Hughes, y tu ol i'r camera y tro hwn! Diolch i bedwar o ddisgyblion Ysgol Dyffryn Ogwen a fu'n helpu ar yr ail ddiwrnod o blannu!



**Sesiynau Siarad i Ddysgwyr**

11.00 -12.00, Ail Ddydd Sadwrn bob mis ym Marchnad Ogwen
11.00 -12.00 , 4ydd Dydd Sadwrn bob mis yng Nghaffi Fitzpatrick's

**Am fwy o wybodaeth neu i wirfoddoli yn y sesiynau siarad, cysylltwch â Meleri ar 01248 602131**


JR SGAFFALDIAU Cyf. SCAFFOLDING Ltd. JR

YR IARD, FFORDD STESION, BETHESDA, GWYNEDD LL57 3NE
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk

Ffôn/Ffacs:
01248 601754
07770 568743 (symudol)

CITB





Manylion Cyswllt Cynghorwyr Sir Dyffryn Ogwen

Rachub, Carneddi, Gerlan, Braichmelyn
cynghorydd.paulrowlinson@gwynedd.llyw.cymru 01248 605365

Tregarth, Mynydd Llandygái
cynghorydd.dafyddowen@gwynedd.llyw.cymru 01248 605523

Bethesda
cynghorydd.rheinalltpuw@gwynedd.llyw.cymru 07789 742092

Llanllechid, Talybont, Llandygái, Aber, Tyn-y-Maes
cynghorydd.dafyddmeurig@gwynedd.llyw.cymru 07765 400140

@CynghorwyrDyffrynOgwen @PlaidCymruOgwen

## Ysgol Dyffryn Ogwen

**Seremoni Wobrwyo 2018**
Cynhaliwyd Seremoni Wobrwyo flynyddol yr ysgol nos Fercher, Medi 12. Cafwyd cyfle i ddathlu llwyddiannau ein disgyblion a'n pobl ifanc mewn cyd-destunau academaidd, allgyrsiol ac o ran presenoldeb ac ymdrech gyda'u gwaith ysgol.

Yr oedd yn braf iawn croesawu rhai o benaethiaid ysgolion cynradd y dalgylch i rannu llwyddiannau eu cyn ddisgyblion.

Mae'r ysgol yn rhoi llawer o bwyslais ar bresenoldeb da, gan fod llawer o dystiolaeth fod disgyblion gyda phresenoldeb da yn llwyddo'n llawer gwell na'r rhai sy'n colli dyddiau yma ac acw – ac nid yw hynny'n syndod, wrth gwrs. Yr oedd yn braf iawn gwobrwyo 34 disgybl â phresenoldeb llawn o 100%.

Y pum disgybl a dderbyniodd wobrau am y perfformiadau TGAU gorau eleni oedd Ella Baker, Thalia Lichtenstein, Beca Nia, Ryan Pople a Macsen Wyn. Enillwyr y gwobrau am y perfformiadau Lefel A gorau oedd Martha Glain Evans, Ieuan Hughes, Owain Morgan, Gwenllian Owen, Elin Rowlands ac Elen Wyn.

Rhannwyd Ysgoloriaeth Dafydd Orwig eleni rhwng Martha Glain Evans ac Elen Wyn. Mae'r ysgoloriaeth yn cael ei dyfarnu'n flynyddol am berfformiadau Lefel A eithriadol i ddisgyblion sydd yn parhau gyda'u hastudiaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Aeth Ysgoloriaeth Cyngor Cymuned Bethesda i gofio am y Streic Fawr i Caio Hughes. Cafodd Caio wobr y llynedd am fod y Myfyriwr Gorau ar y cwrs Adeiladwaith – cystadleuaeth a oedd yn agored i ddisgyblion o holl ysgolion Arfon.

Y disgyblion a dderbyniodd y gwobrau am y perfformiad gorau ym mlwyddyn 7 oedd Ella Basinger, Ellie Ball, Betsan Griffiths, Gwion Pritchard, Jac Wyn Roberts, Robyn Wharton Griffiths, Grace Wynne, Jac Gray, Gruff Hughes, Osian Moore, Ursula Rowe, Katie Davies ac Osian Rowlands.

Diolch i Gyngor Cymuned Llandygai am gynnig gwobrau i ddisgyblion a ddangosodd ymdrech arbennig ymhob agwedd o'u gwaith ysgol. Yr enillwyr eleni oedd Dylan Davies, Tesni Parry Jones, Lila Richards, Elis Williams, Carwyn Davies, Eleri Devereux, Adah Florence, Swyn Owen, Efa Burgess, Huw Davies, Calum Roberts, Gwen Williams, Sion White, Jasmin Griffith, Dafydd Herbert-Pritchard a Lucy Tugwell.

Cyflwynwyd Gwobr Goffa Charlotte Speddy eleni i Sioned a Katie Davies am eu gwaith yn codi arian at Ward Alaw er cof am eu mam. Mae Ysgoloriaeth Charlotte Speddy yn wobr newydd hael eleni ac fe'i rhannwyd rhwng Lauren Dignam a Jade Roberts sydd ill dwy ar gychwyn cyrsiau gradd Nyrsio.

Gwobr arbennig bob blwyddyn yw Tarian Carwyn Thomas a gyflwynir gan ei rieni, Mr a Mrs Emlyn Thomas, er cof amdano. Mae'r darian yn cael ei chyflwyno i ddisgybl sydd yn gwneud cyfraniad arbennig ym maes chwaraeon, a'r enillydd eleni oedd Osian Hughes. Mae'r hyn mae Osian wedi ei gyflawni ym myd pêl-droed yn anhygoel; mae wedi ennill capiau i Gymru dan 15 ac mae bellach yn aelod o garfan lled-broffesiynol Wrecsam tra hefyd yn astudio dau gwrs ôl-16 yn Ysgol Dyffryn Ogwen.

Owain Morgan oedd enillydd gwobr goffa Frank Rhys Jones, sef y wobr a gyflwynir gan y Prifathro i ddisgybl sydd wedi gwneud cyfraniad arbennig i fywyd yr ysgol. Cyflwynwyd gwobr Hyfforddwr y Flwyddyn i Efa Williams. Mae Efa yn treulio oriau maith yn gwirfoddoli i hyfforddi disgyblion eraill, mewn pêl-droed a rygbi yn bennaf.

Diolch i'r holl ddisgyblion am eu gwaith caled ac wrth gwrs i'r rhieni, staff a llywodraethwyr am eu cefnogaeth.

**Prif Ddisgyblion**
Prif ddisgyblion yr ysgol am y flwyddyn yw Esme Crowe a Sion Davies, gyda Joshua Hughes, Pedr Owen, Cadi Roberts ac Efa Williams yn ddirprwyon. Llongyfarchiadau i bob un ohonynt.

**Bore Coffi**
Cynhaliwyd Bore Coffi yn neuadd yr ysgol er mwyn codi arian ar gyfer yr elusen Macmillan. Roedd llawer o athrawon a disgyblion wedi bod yn hael iawn yn dod a chacennau a bisgedi i'w gwerthu ar y stondin. Llwyddwyd i godi dros £200 ar gyfer yr achos. Hoffem ddiolch i bawb a wnaeth gyfrannu a'r gobaith yw gallu cynnal mwy o ddigwyddiadau i godi arian yn ystod y flwyddyn nesaf.

**Gweithdy Bertsolaritza gyda Myrddin ap Dafydd**
Ar Hydref 1, teithiodd 20 o ddisgyblion Blwyddyn 8 i'r Ysgwrn yn Nhrawsfynydd. Bwriad yr ymweliad oedd treulio diwrnod yng nghwmni'r Prifardd Myrddin ap Dafydd a dysgu am ei nofel ddiweddaraf, 'Mae'r Lleuad yn Goch'. Yn y prynhawn, cynhaliwyd ymryson y beirdd yn null y Bertsolaritza, sef ymryson y beirdd yng Ngwlad y Basg! Cafwyd diwrnod i'w gofio yng nghwmni Myrddin – diolch o galon iddo!

**Blwyddyn 12 ar daith**
Cyn cau pen y mwdwl ar flwyddyn o waith caled, ym mis Gorffennaf teithiodd Blwyddyn 12 i Aberystwyth er mwyn treulio prynhawn yn y Llyfrgell Genedlaethol. Cafodd y criw eu tywys ar daith o gwmpas y llyfrgell yn ogystal â




*Disgyblion a dderbyniodd wobr am berfformiadau gorau ym mlwyddyn 7*



*Disgyblion a dderbyniodd wobr am bresenoldeb 100%*



*Pedr, Cadi, Josh, Efa, Sion ac Esme*

chael y cyfle i weld llawysgrifau Aneirin a Thaliesin. Roedd hwn yn brofiad arbennig iddynt cyn mynd ati i astudio gwaith y Cynfeirdd fel rhan o'u cwrs ym Mlwyddyn 13. Diolch i griw Blwyddyn 12 Ysgol Tryfan am eu cwmni ar y daith.

**Pêl droed**

*Bechgyn dan 13*

Ysgol Dyffryn Ogwen 0-4 Ysgol David Hughes. Perfformiad da iawn er y canlyniad.

*Genethod dan 13*

Ysgol Friars 0-1 Ysgol Dyffryn Ogwen
Ella Basinger yn sgorio'r gôl a'r tîm cyfan wedi chwarae'n wych.

*Bechgyn dan 15*

Llangefni 3 - 3 Ysgol Dyffryn Ogwen
3 gôl i Noa Hughes
Llangefni yn ennill 3-0 ar giciau o'r smotyn.
Pawb wedi chwarae'n ardderchog yn erbyn tîm wnaeth gyrraedd rownd derfynol Cwpan Cymru y llynedd, ac yn anlwcus i beidio mynd ymlaen i'r rownd nesaf.

**Rygbi**

*Bechgyn dan 14*

Ysgol Brynrefail 14 -33 Ysgol Dyffryn Ogwen
Osian Davies gyda 4 cais ac Osian Moore yn sgorio 1. Noa Hughes yn trosi 4 cic.

*Bechgyn dan 14*

Ysgol Dyffryn Owen 51 - 12 Tryfan
Ceisiadau gan Noa Hughes, Osian Moore, Osian Davies x 3, Jac Roberts, Cai Davies x 2 ac Aaron Carson. Cai Davies ac Osian Moore yn trosi. Da iawn hogia!

*Bechgyn dan 16*

Ysgol Brynrefail 31 - 34 Ysgol Dyffryn Ogwen
Leon Casey, Ryan Williams, Tomos Hughes, Leon Wild a Huw Davies x 2 yn sgorio'r ceisiau.

Roedd hon yn gêm arbennig, yn debyg iawn i gêm Cymru yn erbyn yr Alban yn 2010, pan sgoriodd Shane Williams yn yr eiliadau olaf i gipio buddugoliaeth! Roedd Brynrefail ar y blaen o 31- 15 gyda 6 munud i fynd. O gic Tomos Hughes i ail-gychwyn, daliodd Huw Davies y bêl, trechu pedwar neu bump o daclwyr Brynrefail a sgorio yn y gornel; llwyddodd Ryan Williams i drosi cic wych o'r ystlys chwith a hynny â chic adlam gan fod amser yn brin! Ciciodd Brynrefail y bêl yn ddwfn i hanner Dyffryn Ogwen i ail-gychwyn ond gydag un bas hir gan Joseph Bunford i Tomos Hughes, Tomos yn ffugio ac ochrgamu i dwyllo amddiffyn Brynrefail cyn pasio i Huw, daeth cais arall yn y gornel. Ryan yn llwyddo ETO gyda throsiad adlam, 31-29 i Brynrefail, 2 funud i fynd. Llwyddodd Dyffryn Ogwen i gael dwy gic gosb ac o'r ail, fe basiwyd y bêl ar hyd y llinell i Leon Wild sgorio yn y gornel i gipio buddugoliaeth anhygoel o 34-31. Da iawn, hogia – amdani Dyffryn Ogs!

## EGLWYS UNEDIG BETHESDA LLENWI'R CWPAN

Dewch am sgwrs a phaned.
Bob bore **dydd Iau** rhwng **10.00** o'r gloch a hanner dydd

**DAFYDD CADWALADR**
**Cynhyrchion Coedlannol**
Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy losgi coed
**01248 605207**

**CHRIS GRIFFITHS**
**Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau, bachau, twll llythyrau ac unedau gwydr wedi chwythu**

18 Carreg Felin
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB
☎ 01248 713 369 neu 07813 455653

Sefydlwyd 1969
**m.hughes a'i fab**
**CONTRACTWYR TOI**
Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda
☎ 600633
☎ (symudol) 07702 583765
*Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.*
*Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.*
*Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am waith diguro.*

Copa
**Siop Trin Gwallt a Harddwch**
**Bethesda 600094**
Yn arbenigo mewn trin gwallt merched, dynion a phlant.
Cynghori, gosod a thorri wigiau
Rhai gwasanaethau harddwch a shafio (rasal "cut throat")

**JOHN ROBERTS**

**Paentiwr**
**Papurwr**
**Teilsiwr**
**Symudol: 07747 628650**
**Ffôn: 01248 600995**

# Rhiwlas

Iona Jones, 17 Bro Rhiwen, Rhiwlas
☎ 01248 355336

**Diffib Rhiwlas**
Unwaith eto, hoffai'r pwyllgor ddiolch yn fawr iawn i unigolion sydd wedi cyfrannu yn hael iawn at gronfa 'Diffib Rhiwlas'. Rydym yn ddiolchgar tu hwnt am bob cefnogaeth, a chyda help y gymuned, rydym yn nesáu at ein targed ariannol.

**'Steve Eaves a Rhai Pobl'**
Ar nos Wener, 9 Tachwedd, bydd 'Diffib Rhiwlas' yn cynnal noson yng nghwmni 'Steve Eaves a Rhai Pobl'. Cynhelir y noson yn Neuadd Bentref Rhiwlas am 7.30 yh. Dyma gyfle i wrando ar Steve Eaves yn perfformio rhai o'i ganeuon enwocaf ar ei domen ei hun! Yn ogystal, bydd disgyblion Ysgol Rhiwlas yn perfformio ar y noson. Bydd lluniaeth a raffl. Nifer cyfyngedig o docynnau fydd ar gael, cysylltwch gyda Palas Print, Caernarfon, Siop Sŵn Llawen (Bangor Uchaf) neu pwyllgor Diffib Rhiwlas (drwy'r ebost elfynjr@hotmail.co.uk) i brynu eich tocyn. Bydd yr holl elw yn mynd tuag at Diffib Rhiwlas, ac rydym yn ddiolchgar i Steve Eaves a'r ysgol am eu cefnogaeth.

**Cydymdeimlo**
Anfonwn ein cydymdeimlad at Mai a Derek Jones, Bro Rhiwen. Bu farw mam Mai yn dawel yn Ysbyty Gwynedd yn 97 mlwydd oed. Yn enedigol o Drawsfynydd ond wedi ymgartrefu yn Mynydd Llandegai gyda'i diweddar briod, Edward Oliver, bu'n nyrsio yn Ysbyty Môn ac Arfon am flynyddoedd. Estynnwn ein cofion hefyd at Gareth, Maud, Arwyn a'u teuluoedd.

Yn dawel yng nghwmni ei theulu yng Nghartref Cerrig yr Afon, Y Felinheli, gynt o Bro Rhiwen, bu farw Heulwen Evans, gwraig John Huw, mam Rhys a'i gymar Kate, Rhian a'i gŵr Jim, nain Heledd a Morgan a chwaer y diweddr Tom Gwyn. Bu'r angladd yn yr Amlosgfa a'r gwasanaeth yng ngofal y Parch Gwynfor Williams a'r Parch Richard Gillion. Eleni bu i John a Heulwen ddathlu eu priodas ddiemwnt. Un o'r Rhiwlas yn wreiddiol, yn ferch i'r diweddar William Arthur ac Annie Jones, treuliodd y rhan fwyaf o'i bywyd priodasol yn Tegfryn, Bro Rhiwen. Cafwyd teyrnged iddi gan ei nai, Alwyn Evans a soniodd fel yr oedd wedi bod yn weithgar yng Nghapel Pisgah, yn athrawes Ysgol Sul yno am flynyddoedd. Hi hefyd oedd yr athrawes gyntaf yn yr Ysgol Feithrin ac yn Anti Heulwen i lawer. Roedd yn weithgar hefyd gyda changen Merched y Wawr yn y pentref ers y cychwyn cyntaf a bu'n ysgrifennydd sawl tro. Byddai hi a Rhiannon, ei chwaer yng nghyfraith, yn mynd ar deithiau y Mudiad ac ar y penwythnosau preswyl. Ond yn bennaf oll, roedd ei theulu yn bwysig iawn iddi. Cafodd salwch blin ac y mae'r teulu am ddiolch i staff Cerrig yr Afon am eu gofal ohoni ac am yr ymweliadau a gafodd tra bu yno. Doedd Lleuwen Steffan ddim yn gallu bod yn bresennol yn yr angladd ond fe gafwyd recordiad ohoni yn canu "Rho im yr hedd" ac roedd hyn yn hynod o drawiadol. Derbynwyd rhoddion yn ddiolchgar tuag at Tŷ Gobaith.

Trist hefyd oedd clywed am farwolaeth Heulwen Hughes, Blaenau Ffestiniog ond i ni yn Rhiwlas fe'i hadnabyddwyd fel Heulwen Price Siop Oliver, neu'r Wern i fod yn gywir. Roedd yn un o wyth o blant Mr a Mrs Price y Wern, mynychodd Ysgol Waun ac Ysgol Dyffryn Ogwen ac yna Coleg y Santes Fair yn dilyn cwrs addysg. Bu'n athrawes mewn sawl ardal ac yna cafodd swydd yn Ysgol Maenofferen, Blaenau, lle yr ymgartrefodd wedi iddi briodi ag Emyr. Roedd y gwasanaeth yng ofal y parch Tecwyn Ifan a'r Parch Dewi Morris, a oedd yn yr un dosbarth â hi yn Ysgol Dyffryn Ogwen. Cafodd salwch creulon ond ymdrechodd yn galed hyd y diwedd ac roedd ei brawd a'i chwaer, Dafydd a Delyth, am ddiolch i Emyr a'r teulu am y gofal a gafodd ganddynt. Cafwyd teyrnged iddi gan ei hwyres, Gwenno. Cydymdeimlwn ag Emyr a'r genod, Manon a Bethan a'u teuluoedd a Delyth a Dafydd. Derbynwyd rhoddion tuag at Ymchwil y Galon a Thŷ Gobaith.

**Diolchiadau**
Dymuna John Huw Evans, Rhys a Rhian a'r teulu ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth. Diolch am y cardiau, galwadau ffôn, ymweliadau a'r rhoddion tuag at Tŷ Gobaith.

**Llongyfarchiadau**
Pob dymuniad da i Martha Parry-Owen a Mark Thomas o Gaergybi ar eu priodas yn "The Old Buildings", Brynsiencyn. Daeth ei chwaer, Mali a'i chymar, Mark, adref o Awstralia ar gyfer y briodas. Y mae Martha a Mark wedi ymgartrefu yn Dwyran, Ynys Môn ond am symud ymlaen i Seland Newydd y mae Mali a Mark.

**Gwellhad buan**
Bu Tony Jones, Brony Waun yn yr ysbyty yn ddiweddar i gael clun newydd. Pob dymuniad da Tony, a phwyllo rŵan! Anfonwn ein cofion at eraill sydd heb fod yn dda hefyd.

**Ymddiheuriadau**
Yn rhifyn Medi roedd enwau wyres ac ŵyr Sally a Dafydd Whyte yn anghywir ac ymddiheuraf am hyn. Dyma'r fersiwn gywir:
Llongyfarchiadau i Catrin, Cae Glas gynt ac Iestyn, nawr yn byw yn Wrecsam, ar enedigaeth mab, Eban Jac, brawd bach i Nan Fflur. Llongyfarchiadau i chi eich dau a'n dymuniadau gorau hefyd i taid a nain Rhiwlas, Dafydd a Sally Whyte.



**Derbyn tystysgrif**
Yng Nghapel Pisgah, cyflwynodd y Gweinidog, y Parch Richard Gillon dystysgrif i Gareth Williams, Caeau Gleision. Roedd y dystysgrif yn dynodi "Gwasanaeth hir dymor cenhadaeth yr ifanc dros bawb". Da iawn ti, Gareth!

**Clwb Rhiwen**
Mae'r clwb wedi ailddechrau ac fe aeth nifer ohonom i Venue Cymru, Llandudno i weld cynhyrchiad o'r ddrama "The play that went wrong", ffars hen ffasiwn ddoniol. Diolch i Jean am wneud y trefniadau.
Yn ein hail gyfarfod o'r mis, gan nad oedd yn bosibl defnyddio'r Neuadd, cawsom fynd i dŷ Mair i drafod ein rhaglen am y tymor. Diolch am y croeso ac am y baned.
Mae'r clwb yn cyfarfod ar yr ail a'r pedwerydd Mercher o'r mis am 2 o'r gloch yn y Neuadd. Croeso i aelodau hen a newydd.

**Merched y Wawr**
Cyfarfu'r gangen am y tro cyntaf o'r tymor a chroesawyd pawb i'r cyfarfod. Roedd yn braf gweld Gwenno yn bresennol wedi iddi dreulio cyfnod yn yr ysbyty dros yr haf. Gobeithio hefyd fod Rhiannon yn gwella ar ôl cael clun newydd. Deallwyd hefyd fod Elina a'r Parch John Owen wedi dathlu priodas ddiemwnt. Cafwyd manylion cystadleuaeth y gwaith crefft ar gyfer y Ffair Aeaf.
Ein gwestai oedd Gwen Gruffudd o Rostryfan ond wedi ei magu yn Rhiwlas a braf oedd ei chroesawu yn ôl atom. Mae'n gweithio fel golygydd yn yr Uned Uwch Efrydau Cymraeg a Cheltaidd yn Aberystwyth. Gwnaeth astudiaeth am lenyddiaeth beirdd o chwarelwyr Dyffryn Ogwen. Diolchwyd i Gwen am noson ddifyr iawn. Nia a Iona wnaeth y baned.

# Caerhun a Glasinfryn

**Cylch Glasinfryn**

Yn ystod toriad yr haf death y newyddion trist am farwolaeth Mary Williams. Roedd yn aelod o'r Cylch a bydd colled fawr ar ei hôl. Cydymdeimlwn â'r teulu yn eu profedigaeth.

Braf oedd cael cyfarfod ein gilydd yn y Ganolfan ar 12 Medi a chael cwmni difyr Dr Shaun Russell unwaith eto. Dyn hynod o ddiddorol sy'n mwynhau ei waith ac wedi gweithio dramor mewn sawl gwlad yn sgil ei waith ymchwil.

Hanes Chile, yn Ne America y cawsom y tro hwn lle bu Dr Russell yn cyflawni ei waith ymchwil yn Cape Horn am 15 mlynedd. Disgrifiodd wwlad wedi ei rannu yn ddaearyddol o'r Gogledd i'r De yn anialwch, gwinllanoedd, coedwigoedd, llynoedd a rhew ac eira, yn cael eu cysgodi gan gysgod mynyddoedd yr Andes.

Yn Cape Horn oedd y Ganolfan ymchwil lle bu Dr Russell yn gweithio gan ddefnyddio cwch bysgota i fynd i astudio y mathau o blanhigion a dyfai yn y rhan yma o'r byd.

Diolchwyd iddo gan Dr Ann Illsley. Jocelyn, Mair a Christina drefnodd y baned a'r raffl.

**Diolch**

Dymuna Richard a Nicola, Brenda a Myrddin, Geraint a Jean, Susan a Ross ddiolch yn ddiffuant i gymdogion a ffrindiau y diweddar Mary Vaughan Williams, 10 Bro Infryn, am eich haelioni tuag at Cronfa Apêl Uned Cancr a Haemotoleg Alaw. Casglwyd swm anrhydeddus o £1,031. Roedd Mary yn gymeriad unigryw a hoffus iawn a bydd colled i'r ardal ar ei hôl. Byddai Mary yn falch iawn o'r cyfraniad a wnaethpwyd tuag at Ward Alaw gan iddi gael pob gofal pan yn glaf yno. Diolch yn fawr i chwi oll.

**Bingo**

Roedd y Ganolfan yn llawn dop i'r noson Bingo a gynhaliwyd ar 21 Medi er cof am Mary.

Roedd hyn yn dystiolaeth bellach o boblogrwydd Mary. Codwyd £281 at Gronfa Apêl Uned Cancr a Haemotoleg Alaw. Diolch yn fawr iawn i bawb am gefnogi'r noson ac hefyd i eraill am eich cyfraniadau tuag at y gwobrau a'r raffl. Hefyd i diolch i Ann Williams a'i ffrindiau am drefnu'r noson.

Cynhelir y Noson Bingo nesaf ar 26 Hydref am 7yh.

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau i Idwal a Gwyneth Jones, Y Bwthyn, Waen Wen, ar ddod yn daid a nain i Mabon Lloyd Jones, mab i'w mab, Dylan a'i wraig Nia. Mae Mabon yn frawd bach i Noa ac Owi ac mae'r hogaiu wrth eu bodd â'u brawd bach!


MODURDY FFRYDLAS
Profion M.O.T.
Perchennog
A. Ll. Williams
Stryd Fawr, Bethesda
♦ PROFION M.O.T. ♦
GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦TEIARS A BATRIS♦
GWASANAETH TORRI I LAWR NEU DDAMWAIN
☎ 600723
Ffacs: 605068

CAFFI COED Y BRENIN
1 Rhes Buddug, Bethesda
Ffôn: 01248 602550
karena@agoriad.org.uk
Bwyd cartref blasus
*(mewn awyrgylch cyfeillgar)*
Cinio arbennig bob dydd Iau
Bwyd i'w gario allan
Gwasanaeth arlwyo ar gyfer partïon o bob math - plant, pen-blwydd ac ati
*(yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)*
Cacennau ar gyfer pob achlysur e.e. priodas neu ben-blwydd
Prisiau rhesymol
BISTRO'R BRENIN
(Bwyty Trwyddedig)
Rydym yn croesawu partïon o bob math – dathlu pen-blwydd ac achlysuron arbennig eraill.
Beth am eich Parti Nadolig?
Gadewch i
Londri Coed y Brenin
wneud eich golchi

SIOP OGWEN
Cardiau, CDs, Coffi Poblado, Crysau-T a Hwdis Cowbois, Crefftau, DVDs, Golwg, Llyfrau, Lluniau a llawer mwy!
Am fan hwylus ar y Stryd Fawr, cofiwch am Siop Ogwen am eich holl anghenion siopa! Galwch draw neu rhowch ganiad i'r Siop am ragor o wybodaeth.
33 Stryd Fawr, Bethesda (Drws nesaf i Neuadd Ogwen)
partneriaeth@ogwen.org
01248 208 485

Londis Bethesda
☎ 01248 605566
Archfarchnad hwylus
Gwasanaeth personol
gyda'r pwyslais ar y cwsmer
Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy
Peiriant codi arian di-dâl
Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr
7 diwrnod yr wythnos

Arbenigwr mewn lloriau coed caled
A.G.L.
Lloriau
Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.
Andrew G. Lomozik B.A.
Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

BARBWR OGWEN
Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant
gan Alison

# Côr y Penrhyn

## gan Derfel Roberts

**Lansio CD newydd Damon Allbarn yn Blackpool.**
Cynyddu mae'r galwadau am wasanaeth côr meibion prysuraf Cymru. Yn ddiweddar, cyhoeddwyd bod y côr i ymddangos ar y llwyfan gyda Damon Allbarn gynt o'r grŵp 'Blur' a hynny yn lansiad recordiad newydd y cerddor roc o Lundain. Bydd y lansiad yn digwydd yn Blackpool ar 1 Rhagfyr ac mae'r aelodau yn edrych ymlaen at gael cyfarfod y seren enwog eto, ar ôl bod yn ei gwmni am sawl noson yng Nghastell Penrhyn yn ystod yr haf.

Meddai Arwel Owen o Lanfairfechan, sy'n aelod o'r adran bariton: "Mae cael mynd i Blackpool i lansio CD newydd yn brofiad arbennig i aelodau'r côr, a thrwy deithio i le gwahanol fel hwn bydd cyfle i ni wneud cysylltriadau newydd ac efallai y daw mwy o waith eto i'n rhan."

Ychwanegodd Tom Williams o blith yr ail denoriaid: "Mae hwn yn gyfnod cyffrous i ni fel côr ac mae canu mewn lleoedd fel Blackpool a Beverly a Chaerdydd yn sicrhau y bydd mwy o bobl ifanc am ymuno â ni, gan wneud dyfodol Côr y Penrhyn yn fwy diogel."

**Cynyddu mae'r galw**
Wrth edrych ar raglen y côr am y misoedd a'r flwyddyn nesaf mae'n amlwg bod y galw am ein gwasnaeth yn cynyddu wythnos wrth wythnos. Nid yn unig mae gennym ein cyngherddau arferol yn Eglwys Sant John yn Llandudno ac ym Mhlas Henllys ym Miwmares ond bydd Eisteddfod Dyffryn Ogwen gyda ni yn y man ac yna daw prysurdeb cyfnod y Nadolig.

Ar ben hynny, mae'r gwaith o baratoi y CD newydd yn mynd rhagddo'n dda ac er na enwyd y recordiad newydd hyd yma, bydd yn cynnwys y gân a gomisiynwyd er cof am y diweddar Tom Morgan. Fel y cofia nifer o ddarllenwyr y golofn hon, gwaith gan y Prifardd Ieuan Wyn a'r Dr Owain Llwyd o Brifysgol Bangor yw'r gân newydd a'i henw yw 'Tiroedd ein Cof'.

Dywedodd Alun Davies o'r Gerlan: "Mae'r recordiad hwn, a wnaed mewn sawl lle gan gynnwys Castell y Penrhyn, neuadd Ysgol Friars ym Mangor a neuadd Ysgol Llanllechid yn dilyn llwyddiant ein CD ddiwethaf, sef 'Anthem'. Mae'r recordiad hwnnw wedi gwerthu miloedd o gopïau a hynny drwy ymdrechion aelodau'r côr eu hunain."

Wrth ategu Alun, roedd Caleb Rhys Jones, is-arweinydd y côr, yn frwdfrydig iawn ynghylch y CD newydd. Meddai: "Dwi'n hollol hyderus y bydd mynd mawr ar y recordiad yma hefyd oherwydd roedden ni'n gwerthu rhwng 12 ac 20 copi o 'Anthem' ymhob cyngerdd a dwi'n rhagweld y bydd hon yn gwerthu mwy eto."

**Ymarfer Agored**
Bydd y côr yn ymarfer yn Neuadd Ogwen bob nos Lun fel rheol a bydd ymarfer agored i geisio recriwtio aelodau newydd yn cael ei gynnal y mis hwn. Mae Nos lun 22 Hydref yn un posibilrwydd. Gwyliwch am y cyfle i ddod draw os oes gennych ddiddordeb mewn canu.

Ar 27 Hydref, byddwn yn Eglwys Llanfairfechan gyda John Ieuan Jones y bariton ifanc a fu'n cystadlu am Ysgoloriaeth Bryn Terfel. Mae John Ieuan Jones wedi perfformio gyda ni yn Llandudno ar sawl achlysur ac mae'n hael iawn ei ganmoliaeth i'r côr gan fynegi fod Côr y Penrhyn yn wefreiddiol i gyd-ganu gyda nhw.

Yn ystod y flwyddyn nesaf, un o'r cyngherddau y byddwn yn edrych ymlaen yn fawr amdano yw ymweliad Côr Meibion Bro Tâf o Gaerdydd â ni yn Nyffryn Ogwen rhywdro ym Mis Mawrth neu Ebrill 2019. Bu'r Côr Y Penrhyn yn canu mewn cyngerdd yn y brifddinas gyda'r côr hwn, sy'n cynnwys nifer o wynebau cyfarwydd o'r cyfryngau, ar y noson cyn y gêm rhwng Cymru a'r Alban ar y Maes Rygbi Cenedlaethol.


# Cymeriadau'r Côr

Cyfres yw hon sy'n rhoi ychydig o fanylion am aelodau Côr y Penrhyn. Yr aelod y mis hwn yw Jonathan Farrer o Fethel ger Caernarfon, sy'n gweithio yn Ysbyty Gwynedd.

1 **Be' ydy dy enw llawn?** Jonathan Farrer
2 **Oed**: 55
3 **Gwaith**: Gwasanaethydd Adran Llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd
4 **Lle wyt ti'n byw?** Bethel, ger Caernarfon
5 **Un o le wyt ti'n wreiddiol?** Llanfachreth ger Dolgellau
6 **Ers faint wyt ti'n aelod o'r côr?** 20 mlynedd
7 **Pa lais wyt ti?** Tenor cyntaf
8 **Pam wnest ti ymuno â Chôr y Penrhyn?** Hoffi gwrando ar gorau a phob math o gerddoriaeth
9 **Pa un ydy dy hoff gân yn rhaglen y côr?** Gwahoddiad
10 **Pwy ydy dy hoff ganwr/gantores?** Rhys Mwyn a Linda Healy
11 **Beth ydy dy farn di am ganu pop?** Dwi'n hoff iawn o ganeuon pop
12 **Pa ddiddordebau eraill sy gen ti y tu allan i'r côr?** Seiclo a thynnu lluniau.


JONATHAN

# Croesair Llais Ogwan



**AR DRAWS**

2 Un o'r gweithgareddau yn 27 Ar Draws (7)
7 Meri Mew *(rhigwm)* (4)
8 Rwan, yr Hwntw (4)
9 Gwall y ddwy 'c' mewn mesur cynganeddol (5)
10 Pentref uwchben Llyn Padarn (6)
11 Difater a heb lawer o frwdfrydedd (6)
12 Doe rywsut roeddwn yn dangos nifer fy nyddiau (3)
14 Annymunol iawn (5)
16 Pryd bwyd blasus, ffidan *(tafodieithol)* (5)
18 Moel a diaddurn (3)
21 Loetran a sefyllian (6)
23 Cartrefi ------ i'r rhai sy'n tynnu 'mlaen (6)
24 "Yn dy ----- ac yn dy ryddid, Tros y Cnicht a'r Moelwyn chwyth", telyneg E.W. i'r mis lleiaf (5)
25 Arddel clod yn 27 Ar Draws (4)
26 Sbel fach, seibiant i'r go' blinedig (4)
27 Na foed O ar goll yn y cyfarfodydd cysegredig (7)

**I LAWR**

1 200c (7)
2 Taro â'r droed (5)
3 Dim newid safbwynt na barn i rwydo'i wrthwynebwyr (6)
4 Parod i'w fwyta (6)
5 Gellir dweud fod dadl 3 I Lawr fel hyn (7)
6 Fel 16 Ar Draws (5)
13 Y fynwent, '--- Duw' (3)
15 Hongiaf o am nad oes dim yn aros yn ei gof (7)
17 Dim goleuni, ond tywyllwch digalon (7)
18 Mi fyddwn wedi dwyn mwy na hanner y dillad cyn gorffen siarad (6)
19 A ellir galw hon yn gamp i'r uchelwyr ? (6)
20 Heulog a chynnes, dyna'r tywydd yma (5)
22 Dim mwy, dim llai (5)

**ATEBION CROESAIR MEDI 2018**

**AR DRAWS** 1 Mad, 3 Gwahanol, 8 Dyfodol, 9 Teilo, 10 Rwdan, 11 Storïwr, 12 Ysgubo, 14 Llwynog, 18 Y Gadair, 20 Saffir, 22 Fodan, 23 Gorlanw/Gorllanw, 24 Ffortunus, 25 Oes

**I LAWR** 1 Modurdy, 2 Dyfod, 3 Godineb, 4 Achlust, 5 Altro, 6 Opiniwn, 7 Poer, 13 Gwawdio, 15 Wystrys, 16 Gorffwys, 17 Cragen, 18 Ysfa, 19 Arnat, 21 Ffraeo

Dim un gwall y tro yma i darfu ar gywirdeb pob un ohonoch. Da iawn chi !

Dyma'r cynigion cywir: Iona Williams, Llanddulas; Donna Coleby, Penwortham; Elizabeth Buckley, Dulcie Roberts, Rosemary Williams, Tregarth; John H. Evans, Llanberis; Dilys Wyn Griffith, Abergele;
Gwilym a Myra Evans, Niwbwrch; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Emrys Griffiths, Rhosgadfan;
Barbara Jones, Jean Hughes, Talybont; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Dilys Parry, Rhiwlas;
Gareth William Jones, Bow Street; Ann Carran, Rita Bullock, Gaynor Elis-Williams, Cath Aran, Bethesda; David T. Hughes, Cyffordd Llandudno; Doris Shaw, Bangor.

Yr enw cyntaf allan o'r het am y wobr oedd Dilys Parry, Bryn Tirion, Rhiwlas, Bangor LL57 4HA
Llongyfarchiadau mawr i chi.

Atebion erbyn 2 Tachwedd, 2018 ***fan bellaf*** i 'Croesair Hydref', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda, Gwynedd LL57 3PD.

**Atebion erbyn 2 Tachwedd, 2018 i 'Croesair Hydref'**
Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda LL57 3PD

Enw

Cyfeiriad

# CHWILAIR

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | G | A | E | R | W | E | N | A | W | F | H | R | I | E | J | L | C | M | B |
| P | O | R | T | H | A | E | T | H | W | Y | V | B | H | P | X | **B** | J | U | I |
| S | V | S | P | H | E | I | C | M | G | V | H | M | D | E | W | **E** | H | U | Z |
| M | X | V | E | A | D | D | N | A | A | P | A | U | Q | N | U | **T** | S | O | F |
| R | P | Y | N | Q | Z | G | R | H | P | C | U | M | W | T | N | **H** | O | Y | R |
| I | A | S | T | Z | U | T | F | G | D | E | X | U | P | R | W | **E** | R | H | C |
| Q | H | D | R | W | E | H | O | O | Y | E | L | E | G | E | E | **S** | O | M | H |
| E | P | E | E | T | T | C | B | I | B | C | U | C | U | B | J | **D** | P | L | T |
| M | I | O | F | V | V | D | C | L | B | B | F | R | U | E | F | **A** | O | G | J |
| V | I | C | O | I | R | R | X | I | I | M | H | T | T | R | O | S | K | O | P |
| W | G | Y | E | R | C | M | K | E | N | C | B | O | R | W | I | C | X | V | R |
| Y | I | S | L | H | S | T | M | G | E | R | E | F | Y | J | D | G | Z | H | B |
| C | H | W | A | W | O | S | C | R | L | R | A | I | I | X | N | I | L | X | J |
| J | T | T | S | M | B | W | T | E | L | E | X | B | M | D | X | K | F | U | P |
| C | Y | E | Q | Y | O | I | L | A | O | F | E | Y | R | Z | Q | R | O | C | T |
| D | W | B | G | W | S | L | Z | C | G | E | B | G | E | A | J | K | J | C | L |
| N | M | L | R | V | O | G | J | P | N | W | P | R | G | S | O | W | J | J | Q |
| U | A | L | F | S | V | T | X | E | A | U | G | E | H | S | L | Z | E | A | F |
| F | R | O | N | C | Y | S | Y | L | L | T | E | A | X | I | W | T | Z | H | K |
| V | A | G | B | N | K | A | D | S | L | I | K | C | O | G | D | H | B | S | I |

## YR A5 LLUNDAIN / CAERGYBI

Yn y chwilair mis yma mae enw deuddeg LLE AR HYD YR A5 WEDI EI HENWI. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, ayyb yn **un** llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân).

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn HYDREF 29. Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobr.

Rwyf yn falch o ddweud fy mod wedi gallu cael y cyfrifiadur i weithio unwaith eto, diolch yn fawr i Alan am ei gymorth. Mae'r chwilair yn dilyn ffordd yr A5 y mis yma. Dim ond un lle oddi allan i Gymru sydd wedi ei enwi. Pob hwyl i chi ar eich taith o Lundain i Gaergybi.

## Marchnad Ogwen

Ychydig yn fuan i sôn am y Nadolig? Wel nac ydi! Dechreuwch wrth eich traed yn fuan ac yn lleol ym Marchnad Ogwen!

Mae dwy Farchnad ym mis Tachwedd eto eleni. Yr un arferol ar yr ail Sadwrn – sef y 10fed a'r Farchnad gyda'r nos ar Tachwedd 21 o 5 tan 8 o'r gloch. (Sylwer fod y dyddiad yng nghalendr Llais Ogwan y anghywir – mae'r Farchnad ar y nos Fercher, nid nos Iau). Bydd y Boncathod yn eich diddanu yn y Farchnad nos ac yn casglu arian tuag at yr Ambiwlans Awyr. Croeso cynnes.

Mae'r Stondin Elusen yng ngofal Mr Neville Hughes a'i jam cartref ar Sadwrn y 10fed a'r NSPCC yn cynnal yr un nos Fercher yr 21ain. Y Marchnadoedd sy'n rhydd yn 2019 yw Chwefror, Mawrth, Mai ac Awst yn unig.

Mae gwybodaeth lawn am y Farchnad ar ein gwefan www.marchnadogwen.co.uk a hefyd mae gwybodaeth gyfredol ar ein tudalen Facebook cyn pob marchnad.

Croeso cynnes i bawb.

## Y Gerlan

**Caren Brown** Cilwern, 14 Ffordd Gerlan, Bethesda LL57 3ST ☎ 602509 / 07789 916166 carenelaine@hotmail.com

**Heledd Selwyn,** 2 Pen Clwt, Gerlan LL57 3TJ ☎ 01248 208254 / 07880 702640 / heleddselwyn@hotmail.com

**Colli 'Tec'**

Ar 26 Medi bu farw Tecwyn Hughes (Tec Gerlan Road) ac fe gollodd Gerlan gymeriad arbennig. Yncl Tec oedd o i mi a nifer o bobl eraill. Dyn addfwyn, annwyl, llawn straeon a chyngor, barod ei gymwynas, dyn gweithgar a hynod boblogaidd a fu'n byw yn y Gerlan o'i eni hyd i ni ei golli yn 88 mlwydd oed. Mae gen i sawl stori amdano ef a'i gyfeillion agos yn gwneud gwaith cynnal a chadw ar y Caban. Roedd y criw yma o gyfeillion yn aml yn codi gwallt pen Pwyllgor y Caban, gan eu bod yn ddynion yn eu hoed a'u hamser ac yn gwneud gwaith adeiladu heriol iawn – doedd dim stop arnynt ac Yncl Tec yn eu canol! Rydym yn ddiolchgar iawn am ei gyfraniad i'r neuadd o'r cychwyn cyntaf.

Mae ein cydymdeimlad dwysaf yn mynd at ei deulu a gyrrwn ein cofion cynhesaf at Arwel, Annwen, Delyth, Derfel a'u teuluoedd. Bydd bwlch mawr ar Gerlan Road heb yr hen Tec. // Caren

**Gwellhad buan**

Bu Caren Brown yn yr ysbyty fis diwethaf ar ôl cael llawdriniaeth brys ond mae hi'n gwella'n rhyfeddol erbyn hyn. Hoffai ddiolch i bawb am eu caredigrwydd

Dymuniadau gorau iti, Caren, am wellhad buan iawn.

## Ysgol Bodfeurig

Gyda dim ond mis wedi mynd heibio ers i'r tymor ysgol ddechrau, mae pawb yn Ysgol Bodfeurig wedi bod yn hynod o brysur!

**Diwrnod Annibendod**
Fel rhan o'u thema cafodd dosbarth Idwal ddiwrnod annibendod llawn hwyl. Cafodd pawb amser gwych yn cerdded trwy baent, chwistellu, taflu a chwarae gyda dŵr, chwarae gyda sbagetti, arbrofi gyda swigod a llawer mwy. Uchafbwynt y dydd yn sicr oedd y frwydr ddŵr!



**Diwnod Ieithoedd Ewropeaidd**
Pe byddech wedi ymweld â'r ysgol ar Fedi 26 hawdd fyddai meddwl eich bod wedi glanio yn nifer o wledydd Ewrop! Roedd dosbarth Idwal yn dysgu am Sbaen, Tryfan yn dysgu am Ffrainc ac Ogwen yn dysgu am Wlad Groeg. Cafodd pawb amser bendigedig yn dysgu geiriau mewn ieithoedd gwahanol, gwrando ar gerddoriaeth o'r gwledydd – ond, heb os, hoff weithgaredd pawb oedd creu a blasu bwydydd o'r gwledydd hynny! Diwrnod gwerthfawr iawn gyda chyfle i ddysgu mwy am ein cymdogion yn Ewrop.

**Ysgol Goedwig**
Mae tymor yr Hydref yn un bendigedig ar gyfer bod allan yn dysgu am natur ac dyna yn wir mae dosbarth Idwal a Tryfan wedi bod yn ei wneud. Mae'r ddau ddosbarth wedi bod yn cymryd rhan mewn sesiynau ysgol goedwig – dosbarth Idwal o dan arweiniad Miss Emily a dosbarth Tryfan o dan arweiniad un o'n rhieni - Lucy Warren. Diolch yn fawr i Lucy am roi o'i amser i'r plant.


Contractwyr Trydanol
Jones & Whitehead Cyf
Swyddfa Gofrestredig
Penrala, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU
Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982
E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk


**Diolch**
Heb os ni fuasai'r sesiynau mor llwyddianus heb ein cylch coed newydd. Mae'n rhoi lle perffaith i bawb eistedd a dysgu. Diolch o galon i Mr Bill Huaki am greu'r cylch coed – rydym yn ffodus iawn o gael rhieni sy'n hael iawn gyda'u amser a'u harbenigedd yma yn Ysgol Bodfeurig!

**Ymweliad Cestyll**
Fel rhan o'u thema 'Cestyll a Dreigiau', aeth dosbarth Tryfan ar ymweliad â chestyll Caernarfon a Dolbadarn. Cawsom weld y tebygrwydd a'r gwahaniaethau rhwng y cestyll yn ogystal â dysgu mwy am ddulliau'r cestyll o amddiffyn rhag y gelyn. Gobeithio y bydd yr ymweliadau yn ysbrydoli llawer o waith diddorol yn y dosbarth. Cyn yr ymweliad roedd pawb wedi addurno cerrig yn lliwgar i'w cuddio yn y cestyll, felly cadwch lygad allan amdanynt a cofiwch gysylltu os ydych yn dod o hyd i un!

**Te Prynhawn**
Hoffem ddiolch o galon i bawb ddaeth i gefnogi ein te prynhawn yn yr ysgol tuag at elusen Macmillan. Diolch i'r Cyngor Ysgol am drefnu, i bawb gyfranodd tuag at y stondin gacenau a'r raffl ac i ffrindiau a theulu'r ysgol am ddod draw ar y diwrnod. Llwyddwyd i gasglu dros £300 tuag at achos teilwng iawn.

**P.C. Owain**
Daeth P.C Owain i ymweld â'r ysgol i'n dysgu am beryglon alcohol, sylweddau a chyffuriau. Gwrandodd pawb yn astud cyn cymryd rhan mewn llawer o weithgareddau i ddysgu sut i gadw'n ddiogel. Diolch P.C. Owain!



# Ysgol Llanllechid

**Priodas Hapus**
Llongyfarchiadau gwresog i un o gyn-ddisgyblion Ysgol Llanllechid, a merch ieuengaf Mr a Mrs Ron Jones, ar ei phriodas ar draethell braf yng Nghanada. Priododd Laura Jones gyda Tom Appleby ar Ynys Gallianno yn ystod mis Awst pan ddaeth y teulu ynghyd i ddathlu. Newyddion hyfryd a braf cael gweld y lluniau bendigedig. Pob dymuniad da i'r ddau ohonoch i'r dyfodol oddi wrthym i gyd yn Ysgol Llanllechid.


*Mrs Helen Williams yn derbyn tusw o flodau gan blant a staff Ysgol Llanllechid wedi iddi dderbyn Medal Gee (gweler y dudalen flaen)*

**Priodas arall**
Llongyfarchwn Martha Parry Owen, merch Mr a Mrs Parry Owen ar ei phriodas hithau yn ystod yr haf. Pob dymuniad da i'r pâr ifanc a phob hapusrwydd i'r dyfodol.

**Er cof am Mrs Jean Williams**
Derbyniodd Ysgol Llanllechid rodd garedig gan deulu'r diweddar Mrs Jean Williams, oedd yn gyfaill i Ysgol Llanllechid. Llawer o ddiolch i Ms Elen Williams am ddod atom i gyflwyno'r rhodd ar ran y teulu. Mae rhoddion fel hyn i'r ysgol yn werthfawr iawn. Diolch o galon.

**Tafarn y Bull**
Mawr yw ein diolch i gwsmeriaid Tafarn y Bul am siec o £200 i Ysgol Llanllechid. Diolch yn fawr am eich caredigrwydd.

**Cofion**
Anfonwn ein cofion at deulu Mrs Macdonald. Rydym i gyd yn meddwl amdanoch ac yn cofio atoch.

**Cegin Ers Talwm**
Yn ddiweddar bu disgyblion Blwyddyn Dau yn lwcus iawn o gael cwmni Mrs Gwenda Williams o'r Archifdy. Dysgodd y plant am yr hyn oedd i'w weld yn nhai'r chwarelwyr ers talwm e.e. doli a twb, megin, a thecell hen ffasiwn. Cafwyd cyfle i wisgo i fyny – gwasgod, a chap stabal i'r hogiau a ffedog a chap ffril i'r genod! Digon o sioe! Cafwyd cyfle hefyd i gymharu ddoe a heddiw a dysgu am fyd heb drydan. Prynhawn difyr dros ben. Diolch yn fawr, Gwenda.

**Fferm Bodafon a Choedwig Gwydir**
Aeth criw niferus o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen ar daith arbennig i ymweld â Fferm Bodafon yn Llandudno i gyfarfod â phob math o dylluanod fel rhan o'u thema. Mae'r adar ysglyfaethus hyn yn greaduriaid diddorol dros ben a rhyfeddodd y plant at eu crafangau miniog, eu llygaid anferth, y ffordd y maent yn gallu troi eu pennau (270°), a'r peli bach sy'n dod allan o'u stumogau, sy'n cynnwys pob math o esgyrn mân. Ffefryn y plant oedd tylluan wen o'r enw Woody! Ail gymal y daith oedd ymlwybro ar hyd y llwybrau yng nghoedwig Gwydir a dysgu am gynefinoedd yr adar arbennig yma.

**Gweithdy Mathemateg a Gwyddoniaeth**
I'r Galeri yng Nghaernarfon yr aeth dosbarth Mrs Marian Jones i gymryd rhan mewn gweithdy Mathemateg llawn swigod! Dysgwyd gwersi pwysig e.e. ei bod hi'n hanfodol mentro a pheidio a bod ofn gwneud camgymeriadau ac mai dyfal donc biau hi!

**Pentre Peryglon**
Bu plant dosabrth Mr Stephen Jones ar daith addysgiadol i Bentre Peryglon, sef canolfan addysgol sydd wedi'i hadeiladu'n bwrpasol i roi gwybodaeth hanfodol i blant a phobl ifanc ar wahanol agweddau o ddiogelwch gyda thrydan ac ati. Dysgodd y disgyblion sut i gadw eu hunain yn ddiogel yn y cartref, wrth groesi'r lôn a hefyd ar y traeth. Gwersi pwysig.

**Plas Newydd ac Oriel Môn**
Aeth disgyblion Blwyddyn 3 draw i Blas Newydd, Ynys Môn er mwyn chwilio am wiwerod coch a gwneud gwaith map. Gwelwyd un wiwer goch yn sboncio'n chwim o gangen i gangen, a chafwyd cyfle i ddatblygu sgiliau map drwy gofnodi'r llwybrau a'r gerddi. Oriel Môn oedd y gyrchfan ar ôl hyn i astudio darluniau Charles Tunnicliffe, a chael cyfle i argraffu gwaith eu hunain. Diwrnod ardderchog!

**Ymweliad ag Amgueddfa'r Beatles yn Lerpwl**
Yn ddiweddar, aeth dau lond bws o ddisgyblion blynyddoedd 4 a 5 i Amgueddfa'r Beatles yn Lerpwl fel rhan o'r gwaith thematig ar y chwedegau. Cafodd y disgyblion gyfle i wneud pob math o bethau gan gynnwys canu caneuon y Beatles, gwisgo i fyny mewn gwisgoedd o'r cyfnod a lliwio mewn arddull 'Celf Pop'. Uchafbwynt arall oedd sylwi ar enwau'r strydoedd yn Lerpwl a nodi ar ba rai y bu trigolion o Drywerwyn yn troedio arnynt, wrth brotestio yn erbyn boddi eu bro, sef Capel Celyn.

# Talybont

**Neville Hughes**, 14 Pant, Bethesda ☎ 600853
Barbara Jones, 1 Dol Helyg, Talybont ☎ 353500

**Gwaith newydd**
Hyfryd oedd gweld llun Judith Hughes, Tŷ Cerrig, yn rhifyn cyfredol 'Newyddion Llais Gwynedd'. Mae Judy yn gweithio ers ychydig o fisoedd yng Nghegin Arfon; caffi sydd wedi agor ar ei newydd wêdd yng Nghanolfan Hamdden Caernarfon. 'Dw i'n siwr bydd y byrddau'n sgleinio fel swllt newydd ar ôl iti orffen dy waith, Judy. Dymunwn y gorau iti yn y gweithle newydd.


*Judy wrth ei gwaith.*

**Cofion**
Mis o anafiadau fu mis Hydref i ambell un o drigolion Talybont.

Torrodd Alison, 23 Cae Gwigin, fân esgyrn yn ei throed a'i ffêr wrth iddi syrthio yn ei chartref, tra mae Ryan, 11 Dolhelyg wedi torri ei fraich. Pêl-droediwr awyddus ydi Ryan, felly mae'n siŵr ei bod hi'n hwyr glas arno'n ail-ddechrau hyfforddi. Brysiwch wella, y ddau ohonoch!

Treuliodd Mrs. Sheila Chadwick, 1 Cae Bach, noson yn yr ysbyty ddechrau'r mis. Deallwn ei bod yn ôl yn ei chartref erbyn hyn. Mae'n dda bod y teulu'n byw yn agos, a hwythau mor ofalus ohoni.

Cofiwn yn gynnes at bawb yn yr ardal sydd heb deimlo'n rhy dda ar hyn o bryd, ac yn methu mynd o gwmpas fel y dymunent.

**Croeso**
Croeso i Karen, ei merch, Lauren, a'i meibion, Kieran,

Benjamin a Jac, sydd wedi dod i fyw i 28 Cae Gwigin o Rachub. Mae rhai ohonom yn cofio Karen, a Liza ei chwaer, yn enethod bach yn Ysgol Llanllechid. Lle aeth y blynyddoedd, dwedwch ?

Gobeithio y byddwch i gyd yn hapus iawn yn ein plith.

**Eglwys St Cross**

*Diolchgarwch*

Roedd yn bleser gweld cymaint yn dod at ei gilydd Ddydd Sul, Medi 23 i ddathlu Diolchgarwch am y Cynhaeaf, ac mae cynulleidfa St Cross yn ein tro wedi mwynhau ymuno ag Eglwys y Santes Fair, Gelli ar Medi 30 ac ag Eglwys St Tegai, Llandygai ar Hydref 7.

*Cydymdeimlo*

Anfonwn ein cydymdeimlad at deulu Eira Crocombe, Tai Teilwriaid, Tregarth. Diolchwn am ei holl waith dros y blynyddoedd i'r eglwysi yn Nhregarth a Phentir.

*Dymuniadau Gorau*

Dymunwn yn dda i Bethan Griffiths, sydd heb deimlo'n gant y cant ac wedi methu ymuno â ni yn yr eglwys ers rhai wythnosau, ac wedi colli sawl gweithgaredd hefyd. Brysiwch wella, Bethan!

*Darlith ynglyn â Natur, ynghyd ag arddangos ffotograffau*

Nos Wener, Hydref 26 am 7 o'r gloch yn Ysgoldy Maes y Groes. Bydd Holly Page (merch Judith / y Chwaer Julian, un o'n darllenwyr lleyg) yn traddodi darlith "A Natural Obsession" sydd yn ymwneud â'i hoffter o natur, a bydd hefyd yn dangos rhai o'i ffotograffau gwych. Mi fydd y rhain ar werth.

*Sul y Cofio*

Boreol Weddi a Gweithred o Goffadwriaeth, Eglwys St Cross, Tachwedd 11 am 10.50 a.m.

**Capel Bethlehem**

*Oedfaon*

Hydref 21: Parchg. Euros Wyn Jones, Llangefni;
Hydref 28: Gweinidog;
Tachwedd 4: Parchg. Gerallt Lloyd Evans, Llangristiolus;
Tachwedd 11: Gweinidog;
Tachwedd 18: Parchg. R. O. Jones, Gaerwen;
Tachwedd 25; Gweinidog.
Oedfaon am 2 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb. Yr Ysgol Sul am 10 o'r gloch bob bore Sul.

**Diolch**

Dymuna Llew ac Enfys Jones, Cae Gwigin, Talybont ddiolch o waelod calon i'w holl ffrindiau, cymdogion a theulu ar achlysur dathliad eu penblwydd priodas platinum, sef 70 mlynedd!

Diolch hefyd i griw Bwrlwm, Capel Bethlehem, am drefnu te bach i ddathlu'r achlysur.

Derbynwyd llu o gardiau, cyfarchion ac anrhegion a bu'r ddau yn dathlu dros yr wythnos! Diolch o galon i bawb.

## Mair Tai Newyddion




Dyma lun o Mair Williams (Jones gynt) pan fu'n ymweld â'i chwaer fach Helen Wyn (Tammy Jones) ym Mro Derfel, Tregarth, ym mis Medi. Doeddwn i, Neville, heb ei gweld ers blynyddoedd, ond cefais gyfle i'w chyfarfod yng nghartref Helen, ble buon ni'n sgwrsio am hydoedd. Fe'i magwyd yn Nhai Newyddion, Talybont, cyn iddi briodi a symud i Bedford. Mae hi bellach yn 90 mlwydd oed, yn weddw, a chanddi ferch, Susan. Hel atgofion am yr hen Dalybont wnaethon ni fwyaf gan gofio am gymeriadau'r ardal yn y 40au a'r 50au. Cefais awr ddifyr dros ben yn ei chwmni!

STEPHEN JONES
TREFNWR
ANGLADDAU CYF

PEN Y BRYN BETHESDA
GWASANAETH PERSONOL
PEDAIR AWR AR HUGAIN
CAPEL GORFFWYS

BETHESDA • 01248 600455 • 07770265976
Ebost: stephenjonesfuneraldirectors@outlook.com



*Llew ac Enfys â'u dwy ferch, Meriel ac Avril*

## Priodas Blatinwm

Roedd cyfarfod dechrau Hydref o'r Bwrlwm yn un arbennig iawn, pan longyfarchwyd Llew ac Enfys Jones ar gyrraedd 70 mlynedd o fywyd priodasol! Mewn gwirionedd, roedd hwn yn gyfarfod i ddathlu achlysur unigryw yn hanes aelodau Capel Bethlehem. Braf oedd cael croesawu Avril a Meriel, eu dwy ferch, ynghyd â Wil, un o'u meibion yng nghyfraith.

Cyflwynwyd cerdyn arbennig, o waith Barbara, wedi ei lofnodi gan holl aelodau'r Bwrlwm, i Llew ac Enfys, ac fe ganwyd cân a luniwyd gan Neville ar gyfer y dathliad. Tynnwyd lluniau i gofnodi'r achlysur, ac fe gafodd pawb damaid o'r gacen penblwydd gyda'u paned! Prynhawn i'w gofio!



*Eu priodas ar 6 Hydref 1948*

# Bethesda

**Mary Jones**, maryeds@hotmail.co.uk
☎ 07443 047642
**Joe Hughes**, Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas, Bethesda ☎ 601902

**Llyfrgell Bethesda**

Llongyfarchiadau i bob plentyn a gwblhaodd Y Sialens Ddarllen dros y gwyliau Haf, a derbyn Medal a Thystysgrif am eich ymdrechion. 40 o blant i gyd – da iawn chi!

Ar Tachwedd 1 am 2.30 y prynhawn, bydd Magi Ann a Selog gyda Leisa Mererid, yn y Llyfrgell i ddifyrru'r plant lleia'. Croeso i bawb!

**Diolch**

Dymuna Rhiannon Efans, Glanaber, Pant, ddiolch i bawb am yr ymweliadau, y cardiau a'r galwadau ffôn tra bu'n wael. Diolch hefyd i staff Ward Enlli am eu gofal.

**Yr Eglwys Unedig**

Mae'r eglwys yn parhau i fod yn brysur, rhwng y gwahanol weithgareddau sy'n cael eu cynnal yma. Mae'r oedfaon yn sicrhau niferoedd da a daliwn i gael y baned ar ôl oedfa'r bore, ynghyd â chyfle am sgwrs. Mae'r baned ar foreau Iau yn dal ei thir yn dda hefyd.

Mae'r Ysgol Sul wedi dechrau unwaith eto, gyda nifer dda o blant yn mynychu ac yn mwynhau cwmnïaeth ei gilydd a'u hathrawon.

Anfonwn ein cofion at bawb sy'n wael ar hyn o bryd a dymunwn yn dda i Mrs Myfanwy Jones, sydd wedi dod adref o Blas Ogwen.

Cynhaliwyd bore coffi llwyddiannus ym mis Medi, gydag elw da yn mynd tuag at elusen. Diolch i bawb am eu cymorth.

Mae dau o'n haelodau wedi dathlu eu penblwydd yn 90 oed, sef Y Parch. John Owen a Mrs Medi Williams. Dymuniadau gorau i'r ddau, a braf gweld fod Medi wedi gwella.

Cydymdeimlwn â theulu Mr Tecwyn Hughes, Gerlan, yn eu profedigaeth o golli tad, taid a hen daid annwyl iddynt. Rydym ninnau yn yr Eglwys yn colli Tecwyn hefyd. Roedd ei bresenoldeb a'i ffyddlondeb yn werthfawr iawn i'r achos, yn enwedig felly ei gyfraniad i'r criw atgyweirio.

Bydd Côr y Dyffryn yn ymarfer yn y man wrth baratoi ar gyfer y Gwasanaeth Nadolig.

*Y Cyhoeddiadau*

| | |
|---|---|
| Hydref 21 | Y Parchedig Geraint Hughes |
| Hydref 28 | 10am. Y Parch Cledwyn Williams |
| Hydref 28 | 5pm. Y Parch Geraint Roberts |
| Tachwedd 4 | Y Parch Gerallt Ll. Evans |
| Tachwedd 4 | 5pm. Oedfa Gymun |
| Tachwedd 11 | Y Parch Dafydd Coetmor Williams |

**Eglwys Glanogwen**

*Gwasanaethau*

Cynhelir gwasanaethau yn yr eglwys fel a ganlyn:
Sul cyntaf y mis – Ni chynhelir gwasanaeth am 8 y bore dros y Gaeaf.
Pob Sul: Cymun Bendigaid Corawl am 11yb (Os oes 5ed Sul yn y mis – Gwasanaeth ar y cyd gydag eglwysi St. Mair, Mynydd Llandegai a St Cedol, Pentir)
Pob bore Mercher: Gwasanaeth Cymun byr am 10.30yb, ac i ddilyn, paned a sgwrs hwyliog. Croeso cynnes i bawb.

*Sul y Cofio, Tachwedd 11eg*

Cynhelir gwasanaeth byr ger y Gofeb am 10.50 fore Sul, cyn y Gwasanaeth Cymun Corawl yn yr Eglwys.

*Codi arian*

Cynhaliwyd Bore Coffi llwyddiannus yng Nghanolfan Cefnfaes ar Fedi 15, pan godwyd dros £400 tuag at Eglwys Glanogwen. Diolch o galon i bawb am bob cyfraniad a chefnogaeth.

Y digwyddiad nesaf fydd Te Bach Nadolig, yng Ngwesty'r Douglas ar bnawn Gwener, Rhagfyr 7fed. Mwy o fanylion i ddilyn mis nesaf yn y Llais.

*Sbwriel*

Daeth i'n sylw yn ddiweddar bod rhywrai'n lluchio eu sbwriel gardd dros glawdd Pantglas i'r fynwent. Gofynnir yn garedig i beidio gwneud hynny, yn bennaf o ran parch i'r rhai sydd wedi eu claddu yno, a hefyd gan ei bod yn dalcen caled iawn i'r aelodau godi arian ar gyfer y dair fynwent a'r ddwy eglwys dan ein gofal.

Diolch am eich cydweithrediad.

*Cydymdeimlo*

Ar Fedi 15fed bu farw Ceinion Ogwen Hughes yn Norton, Swydd Caer. Mab y diweddar Mr a Mrs Hugh Hughes, Adwy'r Nant oedd Ceinion a brawd annwyl Carys McCarter. Colled enfawr i'w blant, ei wyrion a'i wyresau.

Estynnwn gydymdeimlad â Carys a'r teulu yn eu profedigaeth.

**Dyweddïo**

Llongyfarchiadau i Iwan a Samantha, 5 Llidiart y Gwenyn, Carneddi ar eu dyweddiad yn ystod yr haf. Pob dymuniad da i'r ddau gan eu teuluoedd sef Alison ac Alwyn Lloyd Ellis, 41 Tal y Cae, Tregarth a Steven a Tracy Martin, Hafan Ffordd Bangor, Bethesda.

**Ysbyty**

Bu Mr. John Wyn Jones, Ffordd Bangor, yn derbyn triniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar. Anfonwn ein cofion ato gan ddymuno gwellhad buan iddo.

**Cydymdeimlo**

Anfonwn ein cydymdeimlad at y teuluoedd a fu mewn profedigaeth yn ddiweddar, sef:-

Mrs. Jennie Jones, Bryn Caseg, a'r teulu ar golli Mrs. Eirian Hughes, Blaenau Ffestiniog.

Mr. a Mrs. Arwel Hughes, Garneddwen, a'r teulu, a Mr. a Mrs. Gareth Hughes, Bryn Caseg, a'r teulu yn eu profedigaeth o golli tad, tad yng nghyfraith, taid a hen daid annwyl a hoffus, sef Mr. Tecwyn Hughes, Gerlan.

Mrs. Joan Griffith a'r teulu, Glanffrydlas, Mrs, Arfona Edwards, Maes y Garnedd a'r teulu a Mr. a Mrs. Dafydd Gwilym Jones, Pantglas a'r teulu, wedi colli Mr. Glyn Griffith, Mynydd Llandygai.

Mrs. Glenys Jones, Adwy'r Nant, a'r teulu, yn eu profedigaeth o golli mab, tad, taid a


C.L. JONES
Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu

Bethesda 01248 600045
Caernarfon 01286 676070
Llangefni 01248 751677
Cludiant am ddim yn lleol
Stoc helaeth ac amrywiol
Staff cyfeillgar a phroffesiynol
Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y
Mynytho 01758 730768
Llanrwst 01492 640794
Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni a Llanrwst

brawd annwyl a charedig, sef Mr. David Glyn Jones, Bangor.

**Marwolaeth**

Ar Sadwrn, 29 Medi, yn Ysbyty Gwynedd, bu farw Linda Eklderkin, Abercaseg, yn 65 oed. Mam garedig i Marc, Michael a Darren, a nain a chwaer annwyl. Cynhaliwyd ei hangladd ar ddydd Mawrth, 9 Hydref, yn Amlosgfa Bangor. Cydymdeimlwn â chwi fel teulu i gyd yn eich colled fawr.

**Babi Newydd**

Llongyfarchiadau i Sarah Louise a Stephen Lee, Abercaseg, ar enedigaeth merch fach, Sadie Lee Jones. Llongyfarchiadau i Vernon ac Alison Thomas, Rhes Gordon, ar yr achlysur hapus o ddod yn daid a nain am y tro cyntaf. Llongyfarchiadau hefyd i hen daid a nain Abercaseg, Ellis a Carol Thomas, a hen daid a nain Braichmelyn, Alun ac Anita Jones.

**Canolfan Cefnfaes Bethesda**

Erbyn hyn, mae pwyllgor Canolfan Cefnfaes (fel y bu yn y gorffennol) wedi dod i ben. Mae'r adeilad wedi ei glustnodi gan Gyngor Gwynedd fel un o'r rhai nad ydynt bellach yn gallu ei ariannu.

Oherwydd hyn, mae Partneriaeth Ogwen yn y broses o ddod i gytundeb gyda'r Cyngor er mwyn cadw'r adeilad yn y gymuned ac er budd y trigolion. Mae cynlluniau cyffrous ar y gweill! Yn y cyfamser, bydd y Ganolfan yn rhedeg fel ag y mae ar hyn o bryd. Mae pob Bore Coffi yn saff a gallwch logi ystafelloedd yn yr un modd â'r arfer.

Nid oes un ganolfan na chymdeithas yn rhedeg heb wirfoddolwyr a heb y pwyllgor, sef y tîm rheoli, ni fuasai Canolfan Cefnfaes chwaith wedi gallu goroesi. Felly diolchwn yn ddiffuant i'r holl aelodau. Mae llawer wedi bod yno ers blynyddoedd ond mae eraill wedi bod yno ymron ers y cychwyn. Diolchwn yn arbennig i Dennis Dart am ei waith trylwyr a threfnus fel trysorydd ers blynyddoedd maith, i'r is-drysorydd ac un sydd wedi ymgymeryd â swyddi eraill, Andre Lomozik. Dau arall ydy John a Mair Jones; John fel gofalwr a Mair yn gofalu am y llyfr a'r arian llogi. Diolch i chi i gyd a fu wrthi mor ddygn. Gobeithio y gwelwn amser llewyrchus yn y dyfodol. Cewch wybod mewn da o bryd pan fydd newid yn y drefn, ond cofiwch ar hyn o bryd y cewch logi ystafelloedd o hyd.

*(Penderfynwyd cyhoeddi'r adroddiad hwn yn llawn er gwybodaeth i ddarllenwyr y Llais, er gwaethaf y newidiadau a ddaw i'r Ganolfan dros yr wythnosau nesaf o ganlyniad i'r tân. - Gol).*




*Dawns y Goedwig, Kath Thomas a Lisa Hudson, Parc Meurig.*

Eleni, roedd nawfed Gŵyl Afon Ogwen yn brysurach nag erioed, gyda rhaglen lawn yn cynwys cyfrannwyr lleol ac ymwelwyr yn cyflwyno amrywiaeth o weithgareddau, teithiau a sgyrsiau cerdded o amgylch Bethesda yn ystod y penwythnos, a diwrnod agored ym Melin Cochwillan.

Yn festri Capel Jerusalem, cynnaliwyd yr arddangosfa gelf a ffotograffiaeth flynyddol gyda hcasgliad ychwanegol o gwrlidau lliwgar a oedd yn ennyn llawer o ddiddordeb – yn enwedig gan y rhai sydd am ymuno â'r dosbarth dechreuwyr fydd ymlaen ar ddydd Gwener yng Nghanolfan Cefnfaes (am wybodaeth, cysylltwch â Jan Rawlinson ar 07552 703543). Yn Crochendy Bethesda ar y Stryd Fawr, dangoswyd casgliad o beintiadau gan y diweddar Peter Prendegast.

Unwaith eto eleni, roedd coed a chreigiau Parc Meurig wedi ysbrydoli cerflunwyr a pherfformwyr, gydag assynod Eryri yn difyru pawb. Roedd Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru gyda Codwyr Sbwriel Bethesda, ac yn enwedig y morfil ysbwriel mawr, yn canolbwyntio yr angen sydd i ddiogelu ein amgylchedd yma yn Nyffryn Ogwen ac ymhellach. Rydym yn gobeithio sefydlu safle newydd i'r morfil ym Methesda i hybu ymwybyddiaeth yn lleol.

Hoffai trefnwyr yr ŵyl ddiolch i bawb a fu'n cyfrannu a chymryd rhan – fedran ni ddim llwyddo hebddo chwi.





*Bomiau-edau.*



*Y Morfil Sbwriel.*

# Rachub a Llanllechid

**Angharad Llwyd Beech**,
Garnedd Lwyd, 7 Llwyn Bedw LL57 3EZ
angharadllwyd@hotmail.com

**Penblwyddi**

Bu dathlu mawr yn y Clwb Criced a Bowlio Nos Wener Medi 28ain pan oedd Tom a Karen 15, Henbarc, yn dathlu eu penblwyddi yn 60!

Dymuna'r ddau ddiolch i bawb am yr anrhegion a'r rhoddion tuag at elusennau – Cymdeithas Strôc, Ymchwil Motor Neurone ac Ymchwil Canser y Prostrat. Cafwyd £600 i rannu rhwng y dair elusen. Diolch o galon i bawb. Hefyd diolch i Hogiau'r Bonc am y canu a'r hwyl ar y noson.



*Tom a Karen yn y Clwb Criced ar noson dathlu eu penblwyddi.*

Cafwyd yr englyn a'r penillion isod gan Mr Dilwyn Owen, Erw Las. Diolch Dilwyn.

**Karen a Tom**

Â gwen hir, yn drigain oed, – ehedwch
I hudol fyd maboed;
Yna daw ar ysgafn droed
Yn heini tua'r henoed.

O'r Gerlan daeth yn lencyn bras
I Rachub draw a'i gaeau glas.
Yno cyfarfu fodan dlos
I'w gadw'n gynnes ddydd a nos.

Fe gafwyd plantos, un, dau, tri
A rheini wir yn glod i chi.
Bellach yn Faer a Maeres Hen Barc
Ond deil y ddau a'r un hen sbarc.

**Penblwydd**

Os oeddech yn methu deall pam fod ceir wedi eu parcio yn y cae ger Llwyn Bedw yn ddiweddar, roedd hi'n noson brysur yn Garnedd Lwyd gan fod Dafydd Beech yn dathlu ei benblwydd yn 40 oed. Penblwydd hapus iawn gan dy deulu a dy ffrindiau i gyd, Dafydd. Diolch i bawb a ddaeth i ddathlu!

Bu dathliad arall ym Methesda yn ddiweddar wrth i Arfona Edwards (a drigodd am lawer o flynyddoedd yn 9 Bron Bethel, Rachub) ddathlu ei phenblwydd yn 90. Llongyfarchiadau mawr.

**Diolch**

Dymuna Medi Williams ddiolch yn fawr iawn am yr holl gardiau, blodau a galwadau ffôn a dderbyniodd ar achlysur ei phenblwydd ddiwedd Medi. Hefyd diolch yn fawr am y cyfraniadau i Gymorth Cristnogol. Llawer o ddiolch i bawb.

Dymuna Ellen a James Lillie, 15 Ffordd Llanllechid, ddiolch yn fawr iawn am yr holl anrhegion, cardiau a dymuniadau gorau a gawsant yn dilyn dathlu eu priodas yn ddiweddar. Diolch o galon i bawb.

**Clwb Llanllechid**

Dydd Mercher Medi 26ain, cawsom drip i Biwmares. Cawsom ginio yng Ngwesty'r Buckley ac roedd pawb wedi mwynhau.

Nid oedd pob aelod yn gallu bod yn bresennol oherwydd gwaeledd ac amgylchiadau eraill ac roedd colled am eu presenoldeb. Ar achlysur hapusach, cyflwynwyd blodau i Medi ar drothwy ei phenblwydd yn 90 oed. Bydd y cyfarfod nesaf ar Hydref 24ain. Mae gwahoddiad a chroeso cynnes i unrhyw un a fuasai'n dymuno ymaelodi â'r clwb.

Mae Clwb Llanllechid wedi ei sefydlu ers dros hanner can mlynedd os na y bydd nifer yr aelodau yn cynyddu, bydd rhaid rhoi ystyriaeth i barhad y clwb. Dewch i gymdeithasu a chadw'r unigedd o'r drws.

**Biniau**

Yn y man ac o ganlyniad i ymdrechion y Cynghorwyr Paul Rowlinson a Godfrey Northam, bydd bin stryd newydd yn sgwar Rachub yn lle'r hen un a oedd wedi ei dorri. Mae hyn yn bwysig am fod y biniau a fu ger Ystad Bron Arfon, a'r tu ôl i'r Dderwen Frenhinol wedi cael eu tynnu oddi yno gan Gyngor Gwynedd yn ystod y ddegawd hon.

**Newydd da**

Roedd yn dda cael gwybod nad oes raid i Sharon Williams, Maes Bleddyn fynd yn ôl i'r ysbyty eto yn dilyn triniaeth hir.

Hefyd croesawn y ffaith bod y *Chronicle* yn awr ar gael am ddim y tu allan i Swyddfa Bost Llanllechid yn Rachub.

Yn ogystal a hyn mae'n dda cael gwybod bod Cyngor Gwynedd wedi ysgrifennu at y cynghorydd Godfrey Northam i ddweud y bydd arwyneb diffygiol y ffordd rhwng Capel Carmel a sgwar Rachub yn cael ei dynnu a bydd haenen newydd o dar macadam yn cael ei osod yno, oherwydd cwynion ganddo fo ac eraill. Bydd y newyddion yma o ddiddordeb i'r henoed sy'n defnyddio'r capel a'r ysgoldy, ac i eraill sydd wedi baglu yno.




**Priodas**

Llongyfarchiadau mawr i Laura a Tom ar achlysur eu priodas yn Ynys Gallianno, Canada. Mae Laura yn ferch i Wendy a Ron, Bron Arfon. Fe aeth Wendy a Ron i'r briodas yn ystod mis Awst. Pob hapusrwydd i'r ddau ohonynt i'r dyfodol yng Nghanada.

**Profedigaeth**

Yn ddiweddar, bu farw Mrs Lena Jones Parry (Tandderwen gynt) yn 98 mlwydd oed. Roedd yn chwaer i'r diweddar Elfed, Ewart, Dic a Jane ac yn fodryb garedig a hwyliog bob amser. Bu'n byw yng Nghaergybi am flynyddoedd, ond yn awyddus iawn i gael hanes "Rachub a Pesda bach" pob amser, ac yn edrych ymlaen at dderbyn copi o Llais Ogwan bob mis. Anfonwn ein cydymdeimlad at y teulu oll.

**Colli Jean**

Ar Medi 11eg, gwta chwe mis a diwrnod ers colli ei hannwyl ŵr, Jac, fe hunodd Jean Williams, 60 Maes Bleddyn. Hi oedd yr olaf o denantiaid gwrieddiol Maes Bleddyn a bu'n byw yno ers priodi yn Ionawr 1952.

Mae Ellen, Janet, Philip, Gary a'u teuluoedd i gyd yn diolch o galon am yr holl gardiau, ymweliadau, galwadau ffôn a gawsant ar ôl colli eu mam, mam yng ngyfraith, nain a hen-nain amrhisiadwy.

Diolch hefyd i Gareth Williams , y trefnydd angladdau am ei wasanaeth arbennig a hefyd i'r Parchedig Dafydd Coetmor Williams am ei garedigrwydd.

Diolch yn fawr iawn i'r staff yng Nghaffi Coed y Brenin am y lluniaeth ardderchog a gawsom.

Mae dros £500 wedi cael ei gasglu er cof am Jean, ac mae'r teulu wedi ei gyflwyno i Ysgol Llanllechid yn ôl dymuniad Jean.

Braw mawr oedd colli mam a thad yn agos i'w gilydd ac ni fydd Maes Bleddyn fyth yr un fath. Roedd hi bob tro yn cefnogi elusennau lleol ac roedd pawb yn adnabod 'Anti Jean'.

Mi fydd colled mawr ar ei hôl.

**Capel Carmel**
*Trefn Gwasanaethau (am 5.00yp oni nodir yn wahanol.)*
Hydref 21: Miss Nerys Jackson.
Hydref 28: Gweinidog.
Tachwedd 4: Gweinidog (Cymun).
Tachwedd 11: Parchg. Gwyndaf Jones.
Tachwedd 18: Mr. Dafydd Iwan.

Ysgol Sul am 10.00yb.
Clwb Dwylo Prysur bob nos Wener am 6.30.
Te Bach. Dydd Llun, 22 Hydref.
2.30 – 4.00yp. Croeso cynnes i bawb.

Anfonwn ein cofion cynhesaf at bawb sy'n sâl gartref, ac at Mrs. Dilys Edwards, Coetmor yn dilyn triniaeth yn yr ysbyty.

Anfonwn ein cydymdeimlad at sawl teulu a fu mewn profedigaeth yn ddiweddar, sef:-

Mrs. Lena Hughes, Hen Ysgol, a'r teulu, a Mrs. Buddug Hughes, Ffordd Carneddi, a'r teulu, wedi iddynt golli Mr. Alwyn Griffith, Bangor.

Mrs. Glenys Jones, Adwy'r Nant, a'r teulu yn dilyn marwolaeth sydyn ei mab hynaf, Mr. David Glyn Jones.

Marian a Helen a'r teulu wedi iddynt golli eu modryb Lena yng Nghaergybi, yn 98 coed.

**Derbyn Aelodau Ifainc**
Ar nos Sul, 16 Medi, cawsom wasanaeth Cymundeb hyfryd iawn yng ngofal ein gweinidog, y Parchedig John Pritchard. Yn ystod y gwasanaeth, fe gafodd chwech o ieuenctid yr Eglwys eu derbyn yn gyflawn aelodau gyda ni yng Ngharmel. Dymunwn pob bendith iddynt i'r dyfodol. Dymuniadau gorau i'r rhai ohonynt sy'n cychwyn ar Gwrs Gradd yn y Coleg ar hyn o bryd.



*(o'r chwith: Martha, Hannah, Meilir, Llinos, Beca, a Ffion gyda'r Parchedig John Pritchard.)*

**Clwb Hanes Rachub a Llanllechid**
**Barry 'Archie' Jones.**
Daeth dros hanner cant o bobl draw i gyfarfod agoriadol y clwb yn festri Carmel i glywed Barry 'Archie' Jones – hogyn o Rachub – yn adrodd hanes y grŵp 'Celt'. Bellach mae Celt yn cael ei ystyried yn un o'r grwpiau Cymraeg mwyaf poblogaidd a fu erioed, ac fe glywir eu caneuon bron yn ddyddiol ar Radio Cymru. Barry ac Alwyn gafodd y syniad gwreiddiol – Barry'n ganu gitâr tra roedd Alwyn yn 'drymio'r' soffa gyda gweill ei fam! Yna, daeth Gareth Emlyn, a Meirion 'Royal Oak' atynt i ffurfio'r grŵp a enwyd ar ôl y tim pêl-droed lleol, Llechid Celts. Cafwyd cyfle i recordio casét yn cynnwys y gân 'Byw yn braf yn Gibraltar', ond yna, tawelodd pethau a gadawodd Meirion a Gareth y grŵp.

Daeth tro ar fyd pan ddarganfuwyd llais arbennig Steven Bolton – yntau hefyd o Rachub – mewn parti yn 'Cae Swings'! Cafodd Alwyn set o ddrymiau 'go iawn', ymunodd y diweddar Robert Henry (a'i amp!) â'r grŵp, a cawsant ymarfer yn rheolaidd yn y clwb Ieuenctid bob pnawn Sadwrn, gydag Ifan Evans yn goruchwylio! Chwaraeodd y cynhyrchydd Les Morrison ran flaenllaw yn eu datblygiad fel grŵp, ac yn wir fe ddatblygodd y cyfan yn aruthrol.

Bu'r hogia'n teithio, perfformio, cyfansoddi, recordio ac ymddangos ar y teledu, a digwyddodd sawl tro trwstan ar y daith i enwogrwydd! Ymunodd Martin Beattie â'r grŵp yn ddiweddarach a chreu'r deulais gyda Steven Bolton – y sain unigryw a gysylltwn â'r grŵp erbyn hyn. Diolch yn fawr i Barry am ddod draw, ac i Steven ac Alwyn hefyd am ei gefnogi. Roedd yn braf cael clywed yr hanesion doniol yn ogystal ag ambell i gân gan Steven yn cynnwys 'Rachub' a 'Streets of Bethesda'.

Bydd Mrs Brenda Wyn Jones yn sgwrsio am John Iorc, yn ein cyfarfod nesaf, Nos Fercher Hydref 31 am 7:00.

# Clwb Hanes Rachub a Llanllechid

**Nos Fercher, Hydref 31**

am 7 o'r gloch
yn Festri Capel Carmel.

Bydd sgwrs gan

Mrs. Brenda Wyn Jones
**'John Iorc'**

CROESO CYNNES!

# Nyth Y Gân

**Y Chwarelwr Balch**
Bu'n cerdded am flynyddoedd
I'r chwarel ar ei daith
A theimlai yn flinedig
Cyn dechrau ar ei waith.

Roedd trin y graig bob tywydd
Yn her i unrhyw ddyn
I'w hollti ac i'w naddu
Â chymorth gordd a chun.

Fe holltodd hefyd lyfrau
Trwy rannu ambell sgwrs
A thyfodd ei wybodaeth
O aml lengar sgwrs.

Diwylliant felly gafodd
O lyfrau ac o'r graig
A balch ym ni fel Cymry
Mai coch yw lliw y ddraig.

* * * *

**Hen Alaw ar lan y Môr**
Hen alaw, hithau'n felys, a lynodd
Hyd lannau a'n tywys
Ar ddifyr hynt mor ddi-frys
I'w dilyn mor hudolus.

* * * *

**Gwrando**
Daeth deigryn i sawl llygaid
O glywed telyn dlos
A'i sŵn mor fendigedig
I'n cyfarch gyda'r nos.

Mor bur y clywid nodau
O'i thannau'n llifo'n ffri
A ninnau yno'n gwrando
Mor astud arni hi.

Ein hudo wnaeth pob amser
I fyd dychmygol, glân
Er mwyn i'n werthfawrogi
A blasu pob un gân.

*Dafydd Morris*

**Englyn i Maldwyn Pritchard**
(Capten Tîm Bowlio Pnawn Dydd Mawrth)

Idliais i bwysau Maldwyn, - ei gerydd
A rheg-eiriau'r swnyn;
Her a ddaw i gawr o ddyn
I'w sadio yn go sydyn.

*O. Dani*

# Taith Clwb Mynydda Cymru

Cychwynodd 31 o gerddwyr o ganol Bethesda dydd Mercher Medi 12, toc wedi 10 o'r gloch gan fynd heibio talcen capel Bethesda drwy Barc Meurig ac allan i'r lôn yng Ngrisiau Cochion. Roedd hi'n fore braf efo'r haul yn trio'i orau i ymddangos o du ôl i'r cymylau. Yno, wedi dringo pwt bach, roeddem yn ymuno â Lôn Las Ogwen ac yn fuan cafwyd stop bach gyferbyn â hen adeilad ysbyty Chwarel y Penrhyn. Yn ôl yr hanes, yno y gwnaed y llawdriniaeth llwyddiannus cyntaf ar glaf dan anasthetig.

Oedi wedyn ger Pont Ogwen lle y roedd rhaeadr yn llifo'n gryf wedi glaw y dyddiau blaenorol – siŵr fod Ynni Ogwen yn cynhyrchu digonedd o drydan. Ymlaen i fyny'r llwybr ardderchog am Nant Ffrancon gan fynd heibio i Tai Newyddion a Maes Caradog. Yna croesi'r dyffryn ac aros ar ddarn mawr o graig i gael paned. Nododd un o'r criw fod y graig yn debyg i "Ayres Rock" bach.

Ymlaen â ni a chroesi'r A5 yn Nhŷ Gwyn a dilyn Llwybr yr Offeiriad i fyny ochr Braich Tŷ Du. Roedd y tywydd yn gwella drwy'r adeg a'r golygfeydd i fyny ac i lawr y Nant, a'r mynyddoedd gyferbyn o'r Glyderau hyd at Mynydd Perfedd, yn odidog. Roedd hi'n wlyb wrth hen gorlanau ger Afon Berthen a digon o li yn honno i'w gwneud hi'n anoddach i'w chroesi. Llwyddodd pawb i groesi heb wlychu gan gerdded ymlaen drwy'r brwyn nes cyrraedd Cefn yr Orsedd.

Yma, gwagiodd pawb eu bocs bwyd a fflasg wrth ryfeddu at y golygfeydd i fyny am y Carneddau. Roedd hwn yn fan addas iawn i dynnu llun neu ddau. Yng nghwaelod y Nant roedd Dolawen, a soniwyd am hen gwrs golff oedd yno yn rhwng tua 1920 a 1936.

'Lawr allt' oedd hi wedyn gan gyrraedd y goedwig ym Mraich Melyn, croesi Pont y Tŵr ac yn ôl i'r pentref ar hyd Lwybr y Llawfeddyg. Roedd trefniant wedi ei wneud ymlaen llaw i ni gael paned a chacen yng Nghaffi Coed y Brenin a diolch yn fawr i'r staff yno yn ogystal â phawb a fentrodd ar y daith yma gan gynnwys tri o'r dyffryn.

Beth am ymuno â'r clwb? Maent yn trefnu amrywiaeth o deithiau ac mae rhai dydd Mercher yn llai heriol. Edrychwch ar y wê i gael hanesion a rhaglen y clwb.



SAMARIAID
Mae
Llinell Gymraeg
0808 164 0123
ar gael bob nos rhwng
7.00pm ac 11.00pm

Arfbais Douglas Arms
Cwrw Casgen - Gardd Gwrw
Noson Cwis Yr ail nos Fawrth bob mis – 20:00
Oriau Agor
Llun - wedi cau
Mawrth – Gwener 18:00 – 23:00
Sadwrn 15:30 – 00:00
Sul 13:00 – 15:00 a 20:00 – 23:00
douglasarmsbethesda.com
01248 600219

PANTRI PAT

## Cacen Sbwng efo cnau Ffrengig (Walnut) a hufen menyn coffi

Bydd angen 2 dun 8 modfedd (gwaelod wedi'i leinio).

***Cynhwysion***:

8 owns o flawd codi ac 1 llwy de o bowdr codi.
8 owns o siwgr.
8 owns o fenyn meddal (menyn y gellir ei daenu).
3 neu 4 wy (dylai'r wyau bwyso yr un faint â'r blawd, sef 8 owns).

***Dull***:

Yr Hufen menyn coffi
Curwch ¼ pwys o fenyn efo 5 neu 6 llwy fawr o siwgr eisin.
Rhowch 1 llwy de o goffi mewn ychydig o ddŵr berwedig a'i gymysgu efo'r menyn a'r siwgr eisin.

***Y Gacen***

Rhowch y menyn a'r siwgr eisin mewn powlen a'u chwipio'n dda nes bod y cymysgedd yn llyfn.
Ychwanegwch yr wyau fesul un efo llwyaid fach o flawd a'u chwipio.
Ychwanegwch y blawd a'i chwipio nes bod y cwbl wedi'i gymysgu'n dda (tua 2 funud).
Torrwch y cnau'n fân a'u cymysgu'n ofalus i mewn i'r sbwng.
Rhannwch y cymysgedd i'r ddau dun, a'u rhoi yn y popty sydd wedi ei gynhesu'n barod i 180 gradd (am 20-25 munud).

Rhowch y cymysgedd rhwng dwy ran y gacen, a rhywfaint ar ei phen. Gellir ei haddurno efo 6 hanner cneuen.

**CYWIRIAD**. Mae'n siwr fod y cyfarwydd wedi sylwi ar y llithriad yn y golofn y tro diwethaf. Rhoddwyd 3000ml o hufen yn lle 300ml ! Ymddiheuriadau.